AMODAU CONTRACT AR GYFER NWYDDAU

Gellir amrywio'r Amodau hyn gyda chytundeb ysgrifenedig y Cleient yn unig. Nid yw unrhyw delerau neu amodau a gynigir ar unrhyw adeg gan y Contractiwr yn ffurfio unrhyw ran o'r Contract.

1. DIFFINIADAU

1.1. Yn yr Amodau hyn mae'r geiriau a'r ymadroddion isod yn golygu'r canlynol:

Mae'r 'Cleient' yn golygu Estyn neu unrhyw gynrychiolydd a ddynodir ganddo;

Mae 'Dyddiad Cychwyn' yn golygu (heb ymrwymiad i unrhyw Gyfnod Digyfnewid cymwys) y dyddiad a bennir yn Nogfennau'r Tendr neu (os na roddir unrhyw ddyddiad penodol):

(a) y dyddiad yr hysbyswyd y Contractiwr bod y Contract hwn wedi'i ddyfarnu iddo, lle nad oes unrhyw Gyfnod Digyfnewid cymwys; neu

(b) lle mae Cyfnod Digyfnewid yn gymwys, y diwrnod busnes cyntaf wedi i'r Cyfnod Digyfnewid cymwys ddod i ben;

Mae 'Amod' yn golygu amod o fewn y Contract hwn.

Mae 'Gwybodaeth Gyfrinachol' yn golygu gwybodaeth (ym mha fodd bynnag y caiff ei chyfleu neu ar ba gyfrwng bynnag y caiff ei storio), y byddai ei datgelu'n golygu tor-ymddiriedaeth a fyddai'n agored i gyfraith, ac sydd naill ai wedi'i dynodi fel gwybodaeth gyfrinachol gan y naill Barti yn ysgrifenedig neu a ddylai gael ei hystyried yn destun dyletswydd cyfrinachedd ac sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wybodaeth sy'n ymwneud â busnes, materion, eiddo, asedau, arferion masnachu, datblygiadau, cyfrinachau masnachol, Hawliau Eiddo Deallusol, gallu, personél, cwsmeriaid a chyflenwyr y ddau Barti;

Mae'r 'Contract' yn golygu'r contract rhwng y Cleient a'r Contractiwr sy'n cynnwys Dogfennau'r Tendr, yr Amodau hyn ac unrhyw ddogfennau eraill (neu rannau ohonynt) a nodir yn Nogfennau'r Tendr;

Mae 'Cyfnod y Contract' yn golygu cyfnod parhad y Contract yn unol ag Amod 2;

‘Pris y Contract’ yw’r arian sy’n daladwy gan y Cleient i’r Contractiwr am ddarparu’r Nwyddau a/neu’r Gwasanaethau fel y nodir yn y Contract;

Mae’r ‘Contractiwr’ yn golygu’r person, y busnes neu’r cwmni y rhoddir y Contract iddo;

Mae ‘Diffyg’ yn golygu unrhyw achos o dorri rhwymedigaeth gan y naill Barti dan y Contract (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i achos sylfaenol o dorri amod neu dorri amod sylfaenol) neu unrhyw ddiffyg, gweithred, anwaith, esgeulustod neu ddatganiad y naill Barti, ei weithwyr cyflogedig, ei weision, ei asiantiaid neu’i isgontractwyr mewn cysylltiad neu mewn perthynas â chynnwys y Contract ac mae’r cyfryw Barti yn atebol i’r llall mewn perthynas ag ef;

Mae ‘Nwyddau’ yn golygu unrhyw nwyddau o’r math sydd i’w cyflenwi i’r Cleient gan y Contractiwr (neu gan unrhyw un o isgontractwyr y Contractiwr) yn unol â neu mewn cysylltiad â’r Contract hwn;

Mae ‘Hawliau Eiddo Deallusol’ yn golygu patentau, dyfeisiadau, nodau masnach, nodau gwasanaeth, logos, hawliau dylunio (pa un a ydynt yn gofrestradwy neu fel arall), ceisiadau am unrhyw rai o’r uchod, hawlfraint, hawliau cronfa ddata, hawliau parth, enwau masnachu neu fusnes, hawliau moesol ac unrhyw hawliau neu rwymedigaethau tebyg pa un a ydynt yn gofrestradwy neu beidio mewn unrhyw wlad (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i’r DU) a’r hawl i erlyn am dwyllo.

Mae ‘Archeb’ yn golygu’r archeb a wneir gan y Cleient â’r Contractiwr neu, yn achos y Nwyddau sydd i’w darparu gan drydydd parti, yr Archeb a wneir gan y Cleient â’r trydydd parti hwnnw;

Y ‘Parti’ yw’r Cleient neu’r Contractiwr, sef “y Partïon” gyda’i gilydd;

Mae ‘Adeiladau’ yn golygu’r lleoliad lle mae’r Nwyddau i’w dosbarthu a/neu’r Gwasanaethau i’w cyflawni, fel y pennir yn Nogfen y Tendr;

Mae’r ‘Gwasanaethau’ yn golygu’r gwasanaethau sydd i’w darparu fel y pennir yn y Fanyleb a bydd yn cynnwys, lle mae’r cyd-destun yn caniatáu hynny, unrhyw ddeunyddiau, erthyglau a Nwyddau sydd i’w cyflwyno drwy hynny;

Mae ‘Manyleb’ yn golygu’r fanyleb ar gyfer y Gwasanaeth y mae’r Cleient yn gofyn i’r Contractiwr ei gyflawni fel y nodir yn Nogfennau’r Tendr;

Mae ‘Cyfnod Digyfnewid’ yn golygu (i’r graddau sy’n gymwys i ddyfarnu’r Contract hwn):

(a) y cyfnod a bennir yn Nogfennau’r Tendr sydd i’w ganiatáu rhwng hysbysu am benderfyniad y Cleient i ddyfarnu’r Contract i’r Contractiwr, a’r ddau Barti yn ymrwymo i’r Contract; neu

(b) os nad oes cyfnod felly’n cael ei bennu yn Nogfennau’r Tendr, y cyfnod gorfodol lleiaf y mae’n rhaid ei ganiatáu rhwng hysbysu am benderfyniad y Cleient i ddyfarnu’r Contract i’r Contractiwr a’r ddau Barti yn ymrwymo i’r Contract, sef o leiaf deg (10) diwrnod calendr (neu gyfnod arall y gellir ei bennu o dro i dro gan unrhyw ofyniad cyfreithiol neu weinyddol sy’n berthnasol i’r Cleient);

Mae ‘Staff’ yn golygu’r holl bersonau a gyflogir gan y Contractiwr i gyflawni’r Contract a/neu’r Gwasanaethau ynghyd â gweision, asiantiaid ac isgontractwyr y Contractiwr a ddefnyddir i gyflawni’r Contract a/neu’r Gwasanaethau;

Mae ‘Treth’ yn golygu Treth ar Werth, tolldaliadau ac unrhyw drethi neu dollau perthnasol eraill.

Mae ‘Dogfennau’r Tendr’ yn golygu’r dogfennau a gynhwysir yn Atodlen 1

1.2. Yn yr Amodau hyn dylai cyfeiriad at unrhyw statud, deddfiad, gorchymyn, rheoliad neu offeryn tebyg arall (“deddfwriaeth”), oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall, gael ei ddehongli fel cyfeiriad at y gyfryw ddeddfwriaeth fel y’i diwygiwyd gan unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol neu fel y cynhwysir mewn unrhyw ailddeddfiad dilynol ohoni.

1.3. Oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall, bydd geiriau sy’n dynodi’r unigol yn cynnwys y lluosog ac fel arall, a bydd cyfeiriadau at unrhyw berson yn cynnwys personau, partneriaethau, busnesau, corfforaethau a chyrff corfforedig eraill naturiol a’r holl bersonau cyfreithiol eraill o ba fath bynnag ac ym mha fodd bynnag y’u dehonglir, a bydd y geiriau sy’n dynodi rhyw yn cynnwys gwryw, benyw a diryw.

1.4. Mae'r defnydd a wnaed o benawdau a theip trwm yn y Contract hwn er cyfleustra yn unig ac ni fyddant yn effeithio ar ddehongliad unrhyw ddarpariaeth yn y Contract hwn.

1.5. Onid yw'r cyd-destun yn gofyn fel arall, bydd cyfeiriad at unrhyw ddogfen yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y ddogfen fel y mae ar ddyddiad gweithredu'r Contract hwn.

1.6. Mae Cyfeiriadau at Amodau ac Atodlenni, oni ddarperir fel arall, yn gyfeiriadau at amodau ac atodlenni'r Contract hwn.

1.7. Pe bai unrhyw wrthdaro neu anghysonder rhwng unrhyw ddarpariaeth yr Amodau ac unrhyw ddarpariaeth yr Atodlenni, yr Amodau fydd drechaf.

1.8. Bydd unrhyw gyfeiriad at "gymeradwyaeth" gan y Cleient yn golygu cymeradwyaeth yn ysgrifenedig.

2. **HYD**

2.1. Bydd y Contract yn weithredol ar y Dyddiad Cychwyn ac yn dod i ben yn awtomatig ar y dyddiad a bennir yn Nogfennau'r Tendr, oni therfynir fel arall yn unol â'r Amodau hyn, neu y'i terfynir yn gyfreithlon fel arall, neu'i ymestyn yn unol ag Amod 2.2 isod.

2.2. Os darperir ar gyfer hynny yn Nogfennau'r Tendr, yn amodol ar y Contractiwr yn cyflawni'n foddhaol yn ystod Cyfnod y Contract, gall y Cleient ymestyn y Contract am gyfnod pellach fel a bennir yn Nogfennau'r Tendr. Bydd y Cleient yn hysbysu'r Contractiwr os yw'n dymuno gwneud hynny nid llai nag wyth niwrnod ar hugain (28) cyn diwedd Cyfnod y Contract. Bydd darpariaethau'r Contract yn parhau i fod yn gymwys gydol unrhyw gyfnod estynedig.

3. **ARCHWILIO'R ADEILADAU A NATUR Y NWYDDAU/GWASANAETHAU**

3.1. Tybir bod y Contractiwr, cyn tendro, wedi archwilio'r Adeiladau er mwyn iddo ddeall natur a graddfa'r Nwyddau sydd i'w darparu a/neu'r Gwasanaethau sydd i'w cyflawni, ac wedi ei fodloni ei hun ynghylch yr holl faterion sy'n gysylltiedig â'r Nwyddau, Gwasanaethau a'r Adeiladau. Bydd unrhyw gost a geir gan y Cleient yn sgil methiant y Contractiwr i archwilio'r Adeiladau neu i ddeall natur a graddfa'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau yn unol â'r Amod 3 hwn yn cael eu talu gan y Contractiwr.

3.2. Bydd y Cleient, ar gais y Contractiwr, yn caniatáu mynediad rhesymol at y diben hwn.

3.3. Bydd y Contractiwr yn gyfrifol am gywirdeb yr holl luniadau, dogfennau a gwybodaeth a gyflwynir i'r Cleient gan y Contractiwr a bydd yn talu unrhyw gostau ychwanegol i'r Cleient a achosir gan unrhyw anghysondebau, camgymeriadau neu anwaith yn hynny.

4. **Y NWYDDAU**

4.1. Bydd y Nwyddau i fodlonrwydd rhesymol y Cleient a byddant yn cydymffurfio ym mhob agwedd ag unrhyw fanylion a bennir yn y Contract hwn ac ag unrhyw amrywiadau iddo.

4.2. Bydd y Nwyddau yn cydymffurfio ym mhob agwedd â gofynion unrhyw statudau, gorchmynion, rheoliadau neu is-ddeddfau a all fod mewn grym o dro i dro.

4.3. Bydd y Nwyddau yn addas ac yn ddigonol i'r pwrpas y caiff Nwyddau felly eu defnyddio fel arfer ac i unrhyw bwrpas penodol a wnaed yn hysbys i'r Contractiwr gan y Cleient a bod y Cleient yn dibynnu ar fedr a barn y Contractiwr wrth gyflenwi'r Nwyddau a gweithredu'r Contract.

4.4. Mae'r Contract hwn yn cynnwys y rheolau sy'n ymwneud â gwerthu yn ôl sampl.

4.5. Bydd swmp y Nwyddau yn cyfateb i'r sampl o ran ansawdd.

4.6. Bydd y Nwyddau yn rhydd o unrhyw ddiffyg sy'n gwneud eu hansawdd yn anfoddhaol, pa un a ydyw'n amlwg neu beidio wrth archwilio'r sampl yn rhesymol.

5. **PENODI**

5.1. Mae'r Cleient yn penodi'r Contractiwr i ddarparu'r Gwasanaethau:

5.1.1. yn brydlon ac mewn modd proffesiynol a chwrtais er mwyn adlewyrchu a hyrwyddo delwedd y Cleient;

5.1.2. yn gyfan gwbl yn unol â Dogfennau'r Tendr a holl ddarpariaethau'r Contract;

5.1.3. yn unol â chyfreithiau a rheoliadau, codau ymarfer ac arfer diwydiannol da y DU ac Ewrop sy'n gymwys;

5.1.4. yn unol â'r polisïau (gan gynnwys unrhyw bolisïau gwahaniaethu ar sail hil a pholisïau cyfle cyfartal), rheolau, gweithdrefnau a safonau ansawdd y Cleient fel y'u newidir o dro i dro.

5.1.5. Mae'r Contractiwr yn derbyn telerau'r penodiad fel y darperir yn Amod 5.1.

6. CYFLAWNI'R GWASANAETHAU

6.1. Bydd y Contractiwr yn darparu ar ei gost ei hun yr holl Staff, cyfarpar, offer, teclynnau, deunyddiau neu eitemau ar gyfer darparu'r Gwasanaethau.

6.2. Os yw Dogfennau'r Tendr yn darparu ar gyfer cyflawni'r Gwasanaethau mewn camau, mae'r Contractiwr yn ymrwymo i gyflawni'r Gwasanaethau gan gydymffurfio'n llwyr â'r amserlen ar gyfer camau fel y darperir yn Nogfennau'r Tendr.

6.3. Yn ychwanegol at unrhyw rwymedigaethau mwy penodol a bennir gan delerau'r Contract, bydd yn ddyletswydd y Contractiwr i ddarparu'r Gwasanaethau gan ddefnyddio'r raddfa fedr, gofal a diwydrwydd y gellir ei disgwyl yn rhesymol gan gontractiwr sy'n cynnal masnach, busnes neu broffesiwn y Contractiwr ac sy'n brofiadol o ran darparu gwasanaethau o werth, natur, cwmpas a chymhlethdod tebyg i'r Gwasanaethau.

6.4. Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod ei holl rwymedigaethau sydd i'w cyflawni dan y Contract yn cael eu cyflawni a'u cyflwyno gan staff â phrofiad, cymwysterau a hyfforddiant addas gan ddefnyddio pob medr, gofal a diwydrwydd sy'n ddyledus.

6.5. Bydd y Contractiwr yn sefydlu ac yn cynnal system wedi'i dogfennu'n briodol o reoli ansawdd (a fydd yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion manylach a nodir yn y Fanyleb) er mwyn sicrhau bod y Gwasanaethau'n cael eu cyflawni'n unol â darpariaethau'r Contract.

6.6. Yn ychwanegol at unrhyw hawliau eraill y Cleient dan y Contract, bydd hawl gan y Cleient arolygu ac archwilio darpariaeth y Gwasanaethau sy'n cael eu cynnal yn yr Adeiladau yn ddirybudd unrhyw bryd. Bydd y Contractiwr yn

darparu i'r Cleient yr holl gyfleusterau y gall fod eu hangen ar y Cleient ar gyfer arolygiad neu archwiliad felly.

6.7. Os canfyddir bod unrhyw ran o'r Gwasanaeth yn ddiffygiol neu'n wahanol mewn unrhyw ffordd i Ddogfennau'r Tendr, neu nad ydynt yn cydymffurfio â darpariaethau'r Contract, bydd y Contractiwr ar ei gost ei hun yn ail-gyflawni'r Gwasanaethau dan sylw (heb dâl ychwanegol) o fewn cyfnod y gall y Cleient ei bennu'n rhesymol, ac os yw'n methu bydd hawl gan y Cleient gaffael cyflawniad y Gwasanaethau diffygiol gan drydydd parti neu gyflawni'r tasgau dan sylw ei hun.

6.8. Os yw'r gost i'r Cleient yn sgil cyflawni neu gaffael y cyfryw Wasanaethau yn fwy na'r swm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r Contractiwr am Wasanaethau felly, bydd y gwahaniaeth yn cael ei dalu gan y Contractiwr i'r Cleient ar orchymyn yn ychwanegol at unrhyw symiau eraill a all fod yn daladwy gan y Contractiwr i'r Cleient.

7. RHWYMEDIGAETHAU STATUDOL

7.1. Wrth gyflawni'r Contract, bydd y Contractiwr yn cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau statudol perthnasol am yr amser sydd mewn grym gan gynnwys, ond heb niwed i gyffredinolrwydd yr uchod, y rheiny'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles, yr amgylchedd, cyflogaeth, diogelu data, cysylltiadau hiliol a gwahaniaethu ar sail rhyw. Bydd y Contractiwr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr holl ddarpariaethau hyn yn cael eu cadw gan bob aelod o Staff y Contractiwr a gyflogir wrth weithredu'r Contract. Bydd y Contractiwr yn indemnio'r Cleient a'r Goron yn erbyn pob gweithred, hawliad, colled, gorchymyn, cost a thraul y gall y Cleient eu dioddef neu eu cael o ganlyniad neu mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri unrhyw rwymedigaeth statudol.

8. AMSER CYFLAWNI

8.1. Bydd y Contractiwr yn dechrau cyflawni'r Gwasanaethau ar y dyddiad a bennir yn y Fanyleb a bydd yn cwblhau'r Gwasanaethau erbyn y dyddiad a bennir yn y Fanyleb neu yn parhau i gyflawni'r Gwasanaethau am y cyfnod a bennir yn y

Fanyleb (pa un bynnag sy'n gymwys). Mae amser yn hanfodol yn y Contract. Gall y Cleient drwy hysbysiad ysgrifenedig ei gwneud yn ofynnol i'r Contractiwr gyflawni'r Gwasanaethau mewn trefn y gall y Cleient benderfynu arni. Yn absenoldeb hysbysiad o'r fath, bydd y Contractiwr yn cyflwyno rhaglenni gwaith manwl ac adroddiadau cynnydd fel y gall y Cleient ofyn amdanynt o dro i dro.

8.2. Os yw cyflawni'r Contract gan y Contractiwr yn cael ei oedi oherwydd unrhyw weithred neu Ddiffyg ar ran y Cleient, neu gan unrhyw achos arall na allai'r Contractiwr fod wedi rhagweld neu atal yn rhesymol ac nad oedd yn gyfrifol amdano, bydd hawl gan y Contractiwr gael estyniad amser rhesymol i gwblhau rhan felly o'r Gwasanaethau neu ddosbarthu'r Nwyddau yr effeithir arnynt felly.

9. DOSBARTHU

9.1. Caiff y Nwyddau eu dosbarthu i'r fan neu'r mannau a enwir yn Nogfennau'r Tendr. Bydd unrhyw fynediad i Adeiladau ac unrhyw lafur a chyfarpar y gellir eu darparu gan y Cleient mewn cysylltiad â dosbarthu yn cael eu darparu heb fod y Cleient yn derbyn unrhyw atebolrwydd pa beth bynnag, a bydd y Contractiwr yn indemnio'r Cleient, y Goron, a'i gyflogeion neu ei chyflogeion, gweision, asiantiaid neu is-gontractwyr yn erbyn pob gweithred, cais, hawliad, gorchymyn, colled, taliad, cost a thraul y gall y Cleient, y Goron, a'i gyflogeion neu ei chyflogeion, gweision, asiantiaid neu is-gontractwyr eu dioddef neu eu cael o ganlyniad neu mewn cysylltiad ag unrhyw ddifrod neu anaf (pa un a yw'n angheuol neu fel arall) sy'n digwydd tra'n dosbarthu neu'n gosod i'r graddau y gellir priodoli unrhyw ddifrod neu anaf i unrhyw weithred neu anwaith y Contractiwr neu ei Staff.

9.2. Lle mae angen unrhyw fynediad i Adeiladau sy'n berchen i, neu a reolir neu a arolygir, gan y Cleient, bydd y Contractiwr a'i Staff bob amser yn cydymffurfio â gofynion rhesymol Pennaeth Diogelwch y Cleient.

9.3. Rhaid cyflawni'r Gwasanaethau cyn pen uchafswm o saith (7) diwrnod gwaith ar ôl cael cyfarwyddiadau gan y Cleient. Gall y Cleient ofyn bod rhai o'r Gwasanaethau yn cael eu cyflawni ar fwy o frys.

9.4. Lle mae Dogfennau'r Tendr yn ei gwneud yn ofynnol bod y Nwyddau yn cael eu dosbarthu drwy'r Post Brenhinol neu gludydd a gymeradwyir gan y Cleient, mae angen prawf ysgrifenedig ar y Cleient bod pob llwyth o Nwyddau wedi'i ddosbarthu neu wedi'i godi gan y Post Brenhinol neu gludydd a gymeradwyir gan y Cleient, i'r amserlen a gytunwyd. Rhaid cyflenwi hyn i'r Cleient cyn pen saith niwrnod (7) o gwblhau pob dosbarthiad.

9.5. Rhaid i'r holl eitemau i'w dosbarthu gael eu cadw yn warws y Contractiwr neu fel y pennir yn Nogfennau'r Tendr.

9.6. Gall fod yn ofynnol i'r Contractiwr ambell waith godi neu ddosbarthu eitemau i'r Cleient yn rhydd o gost ychwanegol.

10. PAN DDERBYNNIR DOSBARTHIAD

10.1. Bydd y Contractiwr yn archwilio'r holl Nwyddau yn ymwneud â'r Contract er mwyn cadarnhau bod y nifer yn cydymffurfio â'r Archeb. Bydd methiant i wneud hyn yn rhoi'r hawl i'r Cleient i derfynu'r Contract.

10.2. Bydd unrhyw ddiffyg o ran nifer a ddaw'n amlwg wrth archwilio'r Nwyddau a gyflenwyd yn cael ei gyfleu i gynrychiolydd awdurdodedig y Cleient yn ysgrifenedig cyn cyflawni unrhyw rwymedigaeth bellach y Contractiwr o dan y Contract.

10.3. Mae'r Contractiwr yn cytuno drwy hyn i indemnio'r Cleient yn erbyn unrhyw golled a ddioddefir o ganlyniad i fethiant y Contractiwr i ganfod unrhyw ddiffyg yn nifer y Nwyddau a ddosbarthwyd.

11. EIDDO A RISG MEWN NWYDDAU

11.1. Bydd risg yn y Nwyddau heb niwed i unrhyw un o hawliau neu rwymedïau'r Cleient (gan gynnwys hawliau a rhwymedïau'r Cleient dan Amod 37 (Contractiwr Arall)) yn pasio i'r Cleient ar

adeg y dosbarthiad. Daw'r Nwyddau yn eiddo'r Cleient ar adeg y dosbarthiad.

12. ARCHWILIO, GWRTHOD A GWARANTU NWYDDAU

12.1. Bydd y Contractiwr yn caniatáu'r Cleient neu ei gynrychiolwyr awdurdodedig i wneud unrhyw archwiliadau neu brofion y gall y Cleient eu gwneud yn ofynnol yn rhesymol, a bydd y Contractiwr yn darparu pob cyfleusterau a chymorth rhesymol yn ddi-dâl. Ni fydd methiant i wneud cwyn ar adeg archwiliad neu brofion felly a pheidio â rhoi cymeradwyaeth yn ystod neu ar ôl profion neu archwiliadau felly yn golygu bod y Cleient yn ildio unrhyw hawliau neu rwymedïau mewn perthynas â'r Nwyddau.

12.2. Gall y Cleient trwy rybudd ysgrifenedig i'r Contractiwr wrthod unrhyw rai o'r Nwyddau sy'n methu bodloni'r gofynion a bennir yn y Contract hwn. Caiff rhybudd felly ei roi o fewn cyfnod amser rhesymol ar ôl i'r Cleient ddosbarthu'r Nwyddau dan sylw. Os yw'r Cleient yn gwrthod unrhyw rai o'r nwyddau yn unol ag Amod 12 yma, bydd hawl gan y Cleient (heb niwed i'w hawliau a'i rwymedïau eraill) naill ai:

12.2.1. i gael y Nwyddau dan sylw mor gyflym â phosibl naill ai wedi'u hatgyweirio gan y Contractiwr neu (fel y dewisa'r Cleient) gael y Contractiwr i ddod â Nwyddau yn eu lle sy'n cydymffurfio ym mhob ffordd â'r gofynion a bennir yn yr Archeb; neu

12.2.2. gael ad-daliad gan y Contractiwr mewn perthynas â'r Nwyddau dan sylw.

12.3. Bydd unrhyw Nwyddau sy'n cael eu gwrthod neu'u dychwelyd gan y Cleient fel y disgrifir yn Amod 12 yn cael eu dychwelyd i'r Contractiwr ar risg a chost y Contractiwr.

12.4. Bydd y cyfnod gwarant sy'n gymwys i'r Nwyddau yn ddeuddeng (12) mis o'u rhoi mewn gwasanaeth neu ddeunaw (18) mis o'r dosbarthu, pa un bynnag yw'r byrraf (yn amodol ar unrhyw drefniadau gwarant a gytunir yn ysgrifenedig rhwng y Cleient a'r Contractiwr). Os yw'r Cleient o fewn y cyfryw gyfnod gwarant neu cyn pen deng niwrnod ar hugain (30) yn rhoi hysbysiad yn ysgrifenedig i'r Contractiwr am unrhyw ddiffyg mewn unrhyw rai

o'r Nwyddau a gododd yn ystod cyfnod gwarant wrth gael eu defnyddio'n briodol ac yn arferol, bydd y Contractiwr (heb niwed i unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill y gall fod gan y Cleient) mor gyflym â phosibl yn cywiro diffygion felly (pa un ai drwy atgyweirio neu amnewid fel y dewisa'r Cleient) heb gost i'r Cleient.

13. DIFROD WRTH GLUDO

13.1. Pan gaiff unrhyw lwyth o Nwyddau mewn unrhyw Archeb ei anfon, bydd y Contractiwr yn anfon nodyn hysbysu i'r Cleient yn pennu'r dull cludo, man a'r dyddiad anfon, nifer y pecynnau a'u pwysau a'u nifer. Bydd y Contractiwr, yn ddi-dâl ac mor gyflym â phosibl, naill ai'n atgyweirio neu'n amnewid (fel y dewisa'r Cleient) y cyfryw Nwyddau sydd wedi'u difrodi o bosibl wrth gludo.

13.2. Yn achos difrod i Nwyddau felly wrth gludo, bydd y Cleient cyn pen deng niwrnod ar hugain (30) o ddosbarthu yn hysbysu'r Contractiwr bod y Nwyddau wedi'u difrodi.

13.3. Yn achos diffyg dosbarthu, bydd y Cleient (cyhyd ag yr hysbyswyd y Cleient bod y Nwyddau wedi'u dosbarthu) o fewn deng niwrnod (10) o'r dyddiad dosbarthu a hysbyswyd, yn hysbysu'r Contractiwr nad yw'r Nwyddau wedi'u dosbarthu eto.

13.4. Bydd y Contractiwr yn codi ac yn cynnal gydag yswiriwr o fri sy'n cynnal ei fusnes yn yr Undeb Ewropeaidd, yswiriant nwyddau llawn yn cael eu cludo o hyd at £20,000.00 y cerbyd a rhaid iddo ddarparu tystiolaeth i'r Cleient ar gais rhesymol bod polisi felly'n cael ei gynnal ar ffurf llythyr brocer neu ffurf debyg, ynghyd â derbynebau neu dystiolaeth arall o daliad y premiwm olaf a oedd yn ddyledus dan hynny.

14. LABELU A PHECYNNU

14.1. Bydd y Nwyddau'n cael eu pecynnu a'u nodi mewn modd priodol ac yn unol â chyfarwyddiadau'r Cleient ac unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion y cludwyr. Bydd parseli'n cael eu pacio mewn maint hwylus, ddim mwy na 24.0 cms o uchder, a byddant wedi'u diogelu'n addas. Yn benodol, bydd y Nwyddau wedi'u nodi â rhif yr Archeb, y pwysau net, pwysau gros a phwysau gweili, bydd enw'r cynnwys wedi'i nodi'n glir ar bob cynhwysydd, a bydd pob cynhwysydd nwyddau peryglus (a'r holl ddogfennau'n ymwneud â

hynny) yn dangos rhybuddion amlwg a digonol. Bydd y Contractiwr yn indemnio'r Cleient, y Goron, a'i gyflogeion neu ei chyflogeion, gweision, asiantiaid neu is-gontractwyr yn erbyn pob gweithred, cais, hawliad, gorchymyn, colled, taliad, cost a thraul y gall y Cleient, y Goron, a'i gyflogeion neu ei chyflogeion, gweision, asiantiaid neu is-gontractwyr eu dioddef neu eu cael o ganlyniad neu mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri Amod 14 yma.

14.2. Bydd pob deunydd pecynnu yn cael ei ystyried fel deunydd anychweladwy oni bai bod nodyn hysbysu'r Contractiwr yn datgan y codir tâl am y cyfryw ddeunyddiau oni chant eu dychwelyd. Nid yw'r Cleient yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â phecynnau gwag sy'n cael eu dychwelyd gan y Cleient nad ydynt yn cyrraedd adeiladau'r Contractiwr, oni bai bod y Contractiwr cyn pen deng (10) niwrnod o gael hysbysiad gan y Cleient bod y pecynnau wedi'u hanfon yn hysbysu'r Cleient nad yw'r pecynnau wedi cyrraedd.

14.3. Rhaid gwneud y defnydd mwyaf posibl o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu wrth weithio cewyll, paledi, blychau, cartonau, deunydd clustogi a ffurfiau eraill o becynnu, lle mae'r rhain yn bodloni manylion pecynnu eraill. Rhaid gallu adfer y pecynnau er mwyn eu hailddefnyddio neu'u hailgylchu. Dylid adolygu manylion pecynnu o dro i dro er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau diangen ar ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu yn bodoli.

15. MONITRO CYFLAWNI'R CONTRACT

15.1. Rhaid i'r Contractiwr gydymffurfio ag unrhyw drefniadau monitor y gellir eu nodi yn Nogfennau'r Tendr a beth bynnag rhaid iddo ddarparu'r cyfryw ddata a gwybodaeth yn ymwneud â chyflawni'r Gwasanaethau y gall y Cleient ofyn amdanynt yn rhesymol.

16. ARCHWILIO

16.1. Rhaid i'r Contractiwr gadw a chynnal cofnodion llawn a chywir o'r Contract, hyd at ddwy (2) flynedd wedi cwblhau'r Contract neu am gyfnod y gellir ei gytuno rhwng y Partïon, gan gynnwys y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau a ddarperir oddi tano, yr holl wariant a ad-dalwyd gan y Cleient, yr holl daliadau a wnaed gan y Cleient, a (lle thelir unrhyw Staff ar sail talu yn ôl amser) yr oriau a

weithiwyd a'r costau a gafwyd mewn cysylltiad â'r Contract. Bydd y Contractiwr ar gais yn rhoi mynediad i'r Cleient neu'i gynrychiolwyr i'r cofnodion hynny y gall y Cleient ofyn amdano mewn cysylltiad â'r Contract. Bydd amodau'r Amod 16 hwn yn gymwys tra pery'r Contract hwn a byddant yn goroesi wedi iddo ddod i ben neu wedi'i derfynu.

17. **CYNALIADWYEDD**

17.1. Bydd y Contractiwr, tra bydd yn gweithio ar Adeiladau'r Cleient, yn cyflawni'r Contract yn unol â pholisïau amgylcheddol y Cleient fel yr hysbysir y Contractiwr o dro i dro a beth bynnag bydd yn gwneud pob ymdrech resymol i –

17.1.1. arbed ynni, dŵr, pren, papur ac adnoddau eraill;

17.1.2. lleihau gwastraff;

17.1.3. graddol ddiddymu'r defnydd o sylweddau sy'n disbyddu oson; a

17.1.4. lleihau gymaint â phosibl y nwyon tŷ gwydr, cyfansoddion organig ffrwydrad a sylweddau eraill sy'n cael eu rhyddhau gan niweidio iechyd neu'r amgylchedd.

18. **DIM YSMYGU**

18.1. Mae gan y Cleient bolisi dim ysmygu ym mhob un o'i Adeiladau. Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod ei Staff yn cadw at y polisi dim ysmygu tra'n cyflawni unrhyw Wasanaethau yn Adeiladau'r Cleient. Bydd unrhyw fethiant gan Staff y Contractiwr i gydymffurfio â pholisi dim ysmygu'r Cleient yn arwain at ofyn i Staff y Contractiwr adael yr Adeiladau a bydd unrhyw golled yn deillio o'r gweithredu hwn yn cael ei ysgwyddo gan y Contractiwr.

19. **AMRYWIO'R NWYDDAU NEU'R GWASANAETHAU**

19.1. Mae'r Cleient yn cadw'r hawl trwy hysbysu'r Contractiwr yn ysgrifenedig i amrywio ansawdd neu faint y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau. Ni fydd unrhyw amrywiad nac unrhyw newid i Bris y Contract neu amser cyflawni unrhyw rwymedigaeth dan y

Contract sy'n deillio oherwydd amrywiad felly, yn weithredol oni bai bod y Partïon wedi cytuno'n ysgrifenedig ar hynny.

19.2. Bydd y Contractiwr cyn pen saith (7) diwrnod o dderbyn hysbysiad o amrywiad yn unol ag Amod 19.1 uchod yn hysbysu'r Cleient yn ysgrifenedig am unrhyw newid i Bris y Contract a/neu yr amser ar gyfer cyflawni unrhyw rwymedigaeth dan y Contract y cred y Contractiwr sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r amrywiad arfaethedig. Bydd unrhyw newid felly'n cael ei bennu (cyn belled ag y bo modd) drwy gyfeirio at y cyfraddau a'r prisiau a nodir yn Nogfennau'r Tendr. I'r graddau ei bod yn amhosibl pennu newid felly, yna mae'r newid i'w bennu ar sail deg a rhesymol, gan roi ystyriaeth i'r cyfraddau, y prisiau a'r arferion yn y diwydiant y mae a wnelo'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaeth ag ef.

19.3. Os yw'r Partïon yn methu cytuno ar newidiadau y gofynnodd y Contractiwr amdanynt dan Amod 19.2 uchod, yna gall y Cleient naill ai –

19.3.1. dynnu'n ôl yr hysbysiad o amrywiad, ac os felly ni fydd y Contractiwr dan unrhyw rwymedigaeth i weithredu'r amrywiad arfaethedig a bydd y Contract yn parhau mewn grym llawn a heb unrhyw newid; neu

19.3.2. rhoi hysbysiad i'r Contractiwr fwrw ymlaen i weithredu'r amrywiad heb gytundeb, ac os felly bydd y Contractiwr yn mynd ymlaen yn ddi-oed i weithredu'r amrywiad, a bydd hawl ganddo gael swm teg a rhesymol yn dâl iddo a bydd hawl ganddo i'r cyfryw amser ychwanegol y gall fod yn rhesymol i'w bennu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Amod 19.2. Os yw'r Partïon yn methu cytuno ar unrhyw faterion sy'n aros ynghylch Pris y Contract ac amser cyflawni yn deillio o'r amrywiad cyn pen saith (7) diwrnod o'r Cleient yn rhoi hysbysiad dan yr Amod 19.3.2 hwn, gall y naill Barti gyfeirio'r mater neu faterion sy'n aros fel anghydfod i benderfynu yn ei gylch yn unol ag Amod 52 (Datrys Anghydfod).

19.4. Bydd yr amrywiad mewn grym o'r dyddiad a bennir yn y cofnod o'r amrywiad wedi'i lofnodi, ac ni fydd ag effaith ôl-weithredol oni ddarperir ar gyfer hynny'n benodol mewn cofnod felly.

19.5. Bydd pob cofnod o amrywiad yn cael ei ddyddio a'i rifo mewn trefn.

19.6. Ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer mewn unrhyw gofnod felly o amrywiad, bydd y Contract yn parhau â grym ac effaith lawn.

20. GWRTHDARO RHWNG BUDDIANNAU

20.1. Bydd y Contractiwr yn cymryd camau priodol i sicrhau nad yw'r Contractiwr nac aelodau ei Staff yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle mae neu lle gall fod gwrthdaro gwirioneddol, neu wrthdaro potensial, rhwng buddiannau ariannol neu bersonol y Contractiwr neu'i Staff a'r tollau sy'n ddyledus i'r Cleient dan y Contract. Bydd y Contractiwr yn datgelu i'r Cleient fanylion llawn unrhyw wrthdaro felly rhwng buddiannau a all godi cyn gynted â phosibl ar ôl dod yn ymwybodol ohono. Bydd darpariaethau Amod 20 yn gymwys tra pery'r Contract ac am gyfnod amhenodol wedi i'r Contract ddod i ben neu wedi'i derfynu.

21. PRIS Y CONTRACT

21.1. Gan roi cyndabyddiaeth i gyflawni'r rhwymedigaethau dan y Contract gan y Contractiwr, bydd y Cleient yn talu Pris y Contract.

21.2. Os digwydd bod y gost i'r Contractiwr yn sgil cyflawni'i rwymedigaethau dan y Contract yn cynyddu neu'n gostwng o ganlyniad i unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliad newydd yn cael eu gwneud wedi i Gyfnod y Contract gychwyn, bydd unrhyw amrywiad i Bris y Contract yn cael ei asesu ar sail unigol. Ni fydd y cyfryw amrywiaeth yn cael ei ganiatáu mewn cysylltiad â deddfwriaeth neu reoliadau sy'n cael eu deddfu wedi i Gyfnod y Contract gychwyn, ond a gyhoeddwyd cyn i Gyfnod y Contract gychwyn. Tybir y bydd effaith unrhyw amrywiad felly ar gostau'r Contractiwr wedi'i chynnwys ym Mhris y Contract.

22. TALIADAU A THRETHI

22.1. Bydd y Cleient yn talu i'r Contractiwr, yn ychwanegol at Bris y Contract, swm sy'n gyfartal â'r Dreth y gellir ei chodi ar werth y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau a ddarperir yn unol â'r Contract.

22.2. Bydd taliad yn cael ei wneud mewn cyllid wedi'i glirio cyn pen deng niwrnod ar hugain (30) o dderbyn a chytuno anfonebau, yn

cael eu cyflwyno'n fisol fel ôl-daliad, am waith a gwblhawyd i fodlonrwydd y Cleient.

22.3. Bydd pob anfoneb yn cynnwys yr holl gyfeiriadau priodol a dadansoddiad manwl o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau ac fe'i hategir gan unrhyw ddogfennau eraill y bydd y Cleient yn gofyn amdanynt i gadarnhau'r anfoneb.

22.4. Lle mae'r Contractiwr yn ymrwymo i is-gontract gyda chontractiwr at ddiben cyflawni'r Contract, bydd yn achosi i derm gael ei gynnwys yn y cyfryw is-gontract sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliad gael ei wneud gan y Contractiwr i'r is-gontractiwr o fewn cyfnod penodedig nid hwy na thri deg (30) diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys, fel y'i diffinnir gan ofynion yr is-gontract.

22.5. Dylid dangos Treth, lle bydd yn gymwys, ar wahân ar bob anfoneb fel taliad ychwanegol net yn gyfan gwbl.

22.6. Gall y Cleient ostwng taliad mewn perthynas ag unrhyw Nwyddau a/neu Wasanaethau y mae'r Contractiwr naill ai wedi methu darparu neu y mae wedi'u darparu'n annigonol, heb niweidio unrhyw hawliau eraill neu rwymedïau'r Cleient.

23. ADENNILL SYMIAU SY'N DDYLEDUS

23.1. Ble bynnag o dan y Contract hwn, mae modd adennill unrhyw swm o arian gan y Contractiwr neu sy'n daladwy ganddo (gan gynnwys unrhyw swm y mae'r Contractiwr yn atebol i'w dalu i'r Cleient mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri'r Contract), gall y Cleient yn unochrog dynnu'r swm hwnnw o unrhyw swm sydd wedyn yn ddyledus, neu a all ddod yn ddyledus i'r Contractiwr yn ddiweddarach o dan y Contract neu o dan unrhyw gytundeb neu gontract arall gyda'r Cleient neu gydag unrhyw adran, asiantaeth neu awdurdod y Goron.

23.2. Bydd unrhyw ordaliad i'r Contractiwr gan y Cleient, pa un ai o Bris y Contract neu Dreth, yn swm o arian y gall y Cleient ei adennill gan y Contractiwr.

23.3. Bydd y Contractiwr yn gwneud unrhyw daliadau sy'n ddyladwy i'r Cleient heb unrhyw ddidyniad pa un ai drwy wrthgyfrifiad, gwrth-hawliad, disgownt, diddymiad neu fel arall oni bai bod gan y

Contractiwr orchymyn llys dilys sy'n ei gwneud yn ofynnol bod swm sy'n gyfartal â didyniad felly yn cael ei dalu gan y Cleient i'r Contractiwr.

24. CYMHWYSO'R PRIS PAN GAIFF CYFNOD Y CONTRACT EI YMESTYN

24.1. Bydd Pris y Contract yn sefydlog am Gyfnod cychwynnol y Contract. Pe bai estyniad yn cael ei ystyried y tu hwnt i Gyfnod y Contract yn unol ag Amod 2.2 ("Cyfnod Contract Estynedig"), bydd y Cleient a'r Contractiwr yn adolygu Pris y Contract cyn i Gyfnod cychwynnol y Contract ddod i ben.

24.2. Bydd unrhyw hawliad am gynnydd neu ostyngiad ym Mhris y Contract yn ystod y Cyfnod Contract Estynedig yn cael ei ystyried yn unig os caiff ei ategu gan fynegai priodol wedi'i gytuno'n barod rhwng y Cleient a'r Contractiwr, am y cyfnod dan sylw, a bydd y cyfryw fynegai i'w bennu drwy gyd-drafod neu gyflafareddu os oes diffyg cytundeb rhwng y Partïon.

24.3. Yn dilyn cytundeb yn ysgrifenedig gyda'r Cleient, gall y Contractiwr gynyddu neu ostwng Pris y Contract sydd i'w godi am y Cyfnod Contract Estynedig.

25. STAFF Y CONTRACTIWR

25.1. Mae'r Cleient yn cadw'r hawl dan y Contract hwn i wrthod mynediad i, neu i dynnu caniatâd i aros yn, unrhyw Adeiladau a ddelir gan neu ar ran y Cleient neu'r Goron:

25.1.1. unrhyw aelod o Staff y Contractiwr;

25.1.2. unrhyw berson a gyflogir gan is-gontractiwr, asiant neu was y Contractiwr;

y byddai ei fynediad neu bresenoldeb parhaus, ym marn y Cleient, yn annymunol.

25.2. Rhaid i'r Contractiwr a'i Staff pan fyddant yn bresennol mewn unrhyw Adeiladau a ddelir gan neu ar ran y Cleient neu'r Goron, gydymffurfio'n llawn ag unrhyw reolau, rheoliadau a gofynion (gan gynnwys heb gyfyngiad y rheiny'n ymwneud â threfniadau diogelwch) a all fod mewn grym o dro i dro ar gyfer ymddygiad personél pan fyddant yn yr Adeiladau hynny. Gall hyn gynnwys ond

heb fod yn gyfyngedig i archwiliadau diogelwch ar y Contractiwr a Staff y Contractiwr.

25.3. Os yw'r Contractiwr neu'i Staff yn methu cydymffurfio ag Amod 25.2 uchod, gall y Cleient (ac mae ei benderfyniad yn un terfynol a phendant) benderfynu bod y cyfryw fethiant yn niweidiol i fuddiannau'r Wladwriaeth ac os nad yw'r Contractiwr yn cydymffurfio â darpariaethau Amod 25.2 o fewn cyfnod rhesymol o rybudd ysgrifenedig gan y Cleient i wneud hynny, yna gall y Cleient derfynu'r Contract ar yr amod o hyd nad yw terfyniad felly'n niweidio neu'n effeithio ar unrhyw hawl gweithredu neu rwymedi a fydd wedi cronni neu a fydd yn cronni wedi hynny i'r Cleient.

25.4. Dylai'r Contractiwr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau, wrth gyflawni'r Contract, nad yw'r un o'r canlynol yn dod i mewn i'r Adeiladau:

25.4.1. Unrhyw berson (heb fod yn ddinesydd o aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd) sydd yn estron, neu yn berson brodoredig o fewn ystyr Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 oni bai y cafwyd caniatâd ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw.

25.5. Os a phan geir cyfarwyddyd gan y Cleient, bydd y Contractiwr yn rhoi i'r Cleient restr o enwau a chyfeiriadau'r holl bersonau y disgwylir y gall fod arnyn nhw angen mynediad mewn cysylltiad â'r Contract at unrhyw Adeiladau a ddelir gan neu ar ran y Cleient neu'r Goron, gan bennu ym mha rinwedd y maent a wnelo â hi, a chan roi manylion eraill a thystiolaeth o adnabyddiaeth a thystiolaeth ategol arall y gall y Cleient ofyn yn rhesymol amdanynt.

25.6. Os a phan geir cyfarwyddyd gan y Cleient, bydd y Contractiwr yn sicrhau bod unrhyw un o'i Staff a bennir yn y cyfarwyddyd a roddir gan y Cleient, neu sy'n un o ddosbarth o bersonau y gellir fod wedi'u pennu felly, yn llofnodi datganiad bod y cyfryw berson yn deall bod Deddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911 i 1989 yn gymwys iddo yn ystod cyfnod y Contract hwn ac wedi iddo ddod i ben neu gael ei derfynu.

25.7. Bydd y Contractiwr yn cymryd y camau sy'n ofynnol yn rhesymol gan y Cleient i atal personau anawdurdodedig rhag cael mynediad i'r Adeiladau. Os yw'r Cleient yn rhoi hysbysiad i'r Contractiwr nad oes unrhyw berson i'w adael i mewn neu i'w symud o'r Adeiladau neu nad yw i fod yn gysylltiedig neu i'w symud rhag bod yn gysylltiedig â chyflawni'r Contract, bydd y Contractiwr yn cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â hysbysiad felly, ac os yw'n ofynnol gan y Cleient, bydd y Contractiwr yn disodli unrhyw berson sy'n cael ei symud dan Amod 25 â pherson arall cymwys a sicrhau bod unrhyw drwydded a roddwyd i'r person a symudwyd yn cael ei ildio.

25.8. Bydd penderfyniad y Cleient ynghylch a yw unrhyw berson i'w adael i mewn neu i'w symud o'r Adeiladau neu nad yw i ddod yn gysylltiedig neu i'w symud o fod yn gysylltiedig â chyflawni'r Contract ac ynghylch a yw'r Contractiwr wedi rhoi'r wybodaeth neu wedi cymryd y camau sy'n ofynnol ganddo gan Amod 25 yn derfynol ac yn bendant.

25.9. Ni fydd gan y Cleient unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw hawliad neu unrhyw ddyfarniad iawndal mewn perthynas â diswyddaeth neu ddiswyddiad annheg neu ar gam i unrhyw gyflogai'r Contractiwr mewn perthynas â'i wasanaeth neu'i gwasanaeth gyda'r Contractiwr ac yn codi o weithredu mesurau diogeledd y Cleient.

25.10. Mae'r Contractiwr yn cytuno i hysbysu'r Cleient am unrhyw anghydfodau yn yr arfaeth gyda'i gyflogeion a allai effeithio ar weithredu'r Gwasanaethau.

26. IECHYD A DIOGELWCH

26.1. Bydd y Contractiwr yn hysbysu'r Cleient ar unwaith am unrhyw beryglon iechyd a diogelwch a all godi mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract.

26.2. Bydd y Contractiwr yn hysbysu'r Cleient ar unwaith am unrhyw beryglon iechyd a diogelwch a all fodoli neu godi yn Adeiladau'r Cleient ac a all effeithio ar y Contractiwr wrth gyflawni'r Contract.

26.3. Tra'i fod yn Adeiladau'r Cleient, bydd y Contractiwr yn cydymffurfio ag unrhyw fesurau iechyd a diogelwch sy'n cael eu

gweithredu gan y Cleient mewn perthynas â Staff a phersonau eraill yn gweithio yn yr Adeiladau hynny.

26.4. Bydd y Contractiwr yn hysbysu'r Cleient ar unwaith os oes unrhyw ddigwyddiad yn digwydd wrth gyflawni'r Contract yn Adeiladau'r Cleient lle mae'r digwyddiad hwnnw'n achosi anaf personol neu ddifrod i eiddo a allai arwain at anaf personol.

26.5. Bydd y Contractiwr yn cymryd pob cam sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch etc yn y Gwaith 1974 ("Deddf 1974") ac unrhyw ddeddfau, gorchmynion, rheoliadau a chodau ymarfer eraill yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, a all fod yn berthnasol i Staff a phersonau eraill sy'n gweithio yn yr Adeiladau wrth gyflawni'r Contract.

26.6. Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod ei ddatganiad polisi ar iechyd a diogelwch (fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 1974) ar gael i'r Cleient ar gais.

27. RHODDION NEU DALIADAU LLWGR

27.1. Ni fydd y Contractiwr yn cynnig na rhoi, na'n cytuno i roi, i unrhyw gyflogai, gwas, asiant neu gynrychiolydd y Cleient unrhyw rodd neu gydnabyddiaeth o unrhyw fath fel cymhelliant neu wobr am wneud neu ymatal rhag gwneud neu am fod wedi gwneud neu ymatal rhag gwneud unrhyw weithred mewn perthynas ag ennill neu weithredu'r Contract hwn neu unrhyw gontract arall gyda'r Cleient neu'r Goron neu am ddangos neu ymatal rhag dangos ffafr neu anfri tuag at unrhyw berson mewn perthynas â'r Contract hwn neu unrhyw gontract tebyg. Tynnir sylw'r Contractiwr at y troseddau a grëwyd gan Ddeddf Atal Llygredigaeth 1889 i 1916.

27.2. Ni fydd y Contractiwr yn gwneud y Contract hwn yng nghyswllt yr hyn y mae comisiwn wedi ei dalu neu wedi ei gytuno i'w dalu i unrhyw gyflogai, gwas, asiant neu gynrychiolydd y Cleient gan y Contractiwr neu ar ran y Contractiwr, oni bai cyn y Contract hwn bod manylion unrhyw gomisiwn o'r fath a thelerau ac amodau unrhyw gytundeb am daliad o hynny wedi eu datgelu yn ysgrifenedig i'r Cleient.

27.3. Lle mae'r Contractiwr neu unrhyw un o'i Staff neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran y Contractiwr, yn torri darpariaethau Amodau

27.1 a 27.2 mewn perthynas â'r contract hwn neu unrhyw gontract arall gyda'r Cleient neu'r Goron, mae hawl gan y Cleient i:

27.3.1. derfynu'r Contract ar unwaith ac adennill gan y Contractiwr swm unrhyw golled a ddioddefir gan y Cleient o ganlyniad i'r terfynu;

27.3.2. adennill gan y Contractiwr swm neu werth unrhyw rodd, cydnabyddiaeth neu gomisiwn felly; ac

27.3.3. adennill yn llawn gan y Contractiwr unrhyw golled arall a ddioddefir gan y Cleient o ganlyniad i unrhyw achos o dorri Amod 27, pa un a yw'r Contract wedi'i derfynu ai peidio.

27.4. Wrth arfer ei hawliau neu'i rwymedïau dan Amod 27, bydd y Cleient:

27.4.1. yn gweithredu mewn modd rhesymol a chymesur gan roi ystyriaeth i faterion fel difrifoldeb y weithred waharddedig, ac adnabyddiaeth y person sy'n cyflawni'r weithred waharddedig;

27.4.2. yn rhoi pob ystyriaeth ddyladwy, lle bydd yn briodol, i gymryd camau gweithredu ac eithrio terfynu'r Contract.

28. **TWYLL**

28.1. Bydd y Contractiwr yn diogelu arian y Cleient i'r Contract yn erbyn twyll yn gyffredinol ac, yn benodol, twyll ar ran y Staff, neu gyfarwyddwyr a chontractwyr y Contractiwr. Bydd y Contractiwr yn hysbysu'r Cleient ar unwaith os oes ganddo reswm i amau bod unrhyw dwyll wedi digwydd, yn digwydd, neu'n debygol o ddigwydd.

29. **DEDDFAU CYFRINACHAU SWYDDOGOL 1911 I 1989, ADRAN 182 DEDDF CYLLID 1989**

29.1. Mae'r Contractiwr yn ymrwymo i gadw at, ac i sicrhau bod ei Staff yn cadw at, ddarpariaethau:

29.1.1. Deddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911 i 1989; ac

29.1.2. Adran 182 Deddf Cyllid 1989 (datgelu gwybodaeth yn ymwneud â threthi a materion eraill).

29.2. Os yw'r Contractiwr a/neu ei Staff yn methu cydymffurfio ag Amod 29, mae'r Cleient yn cadw'r hawl i derfynu'r Contract trwy roi rhybudd yn ysgrifenedig i'r Contractiwr.

29.3. Bydd darpariaethau Amod 29.1 yn gymwys tra pery'r Contract ac am gyfnod amhenodol wedi i'r Contract ddod i ben neu wedi'i derfynu.

30. **CYFRINACHEDD**

30.1. Heb niwed i gymhwyso Deddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911 i 1989 i unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol mae'r Contractiwr yn cydnabod bod unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a geir gan neu'n ymwneud â'r Cleient, y Goron, a'i gyflogeion neu ei chyflogeion, gweision, asiantiaid neu is-gontractwyr, yn eiddo i'r Cleient neu'r Goron yn ôl fel y bo'n digwydd.

30.2. Bydd pob Parti:

30.2.1. yn cadw'n gyfrinachol unrhyw wybodaeth neu ddeunyddiau a ddarperir iddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Parti arall dan, neu o flaen llaw i'r Contract hwn, gan gymryd mesurau diogelwch rhesymol sy'n ofynnol i ddiogelu ei wybodaeth gyfrinachol a'i gyfrinachau masnachol ei hun;

30.2.2. yn trin pob Gwybodaeth Gyfrinachol a geir fel gwybodaeth gudd a chyfrinachol ac yn ei diogelu'n briodol, ac yn ei defnyddio'n unig at ddiben y Contract hwn;

30.2.3. yn gofalu nad yw'n datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol i unrhyw drydydd parti ac eithrio i'w Staff sydd wedi derbyn rhwymedigaethau cyfrinachedd sy'n gyfwerth ag Amod 30 hwn ac y mae arnyn nhw angen mynediad i wybodaeth neu ddeunyddiau felly mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract;

30.3. Heb niwed i Amod 30.2.3 y Contract, ni fydd yr un o'r ddau Barti yn datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol i unrhyw drydydd parti

pa beth bynnag heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw y Parti sy'n ei chyflwyno.

30.4. Bydd y Contractiwr yn darparu'r holl ragofalon angenrheidiol i sicrhau bod pob Gwybodaeth Gyfrinachol yn cael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol ac nad yw'n cael ei datgelu (heb gymeradwyaeth y Cleient yn ysgrifenedig ymlaen llaw) neu'i defnyddio ac eithrio at ddiben y Contract hwn gan Staff y Contractiwr.

30.5. Heb niwed i gyffredinolrwydd yr uchod ni chaiff y Contractiwr nag unrhyw un o'i Staff ddefnyddio'r Wybodaeth Gyfrinachol i ddeisyf am fusnes gan y Cleient, ei gyflogeion, gweision, asiant neu is-gontractwyr neu'r Goron.

30.6. Lle'r ystyrir ei bod yn angenrheidiol ym marn y Cleient, bydd y Contractiwr yn sicrhau bod y Staff neu unrhyw berson arall a gyflogir ganddo mewn cysylltiad â'r Contract yn llofnodi ymrwymiad ar ffurf a bennir gan y Cleient cyn dechrau gwaith mewn cysylltiad â'r Contract.

30.7. Ni fydd darpariaethau Amod 30 yn gymwys i unrhyw wybodaeth:

30.7.1. sydd yn wybodaeth gyhoeddus neu a ddaw yn wybodaeth gyhoeddus (ac eithrio drwy dorri'r Contract hwn); neu

30.7.2. sydd ym meddiant y Parti sy'n derbyn, heb gyfyngiad mewn perthynas â'i datgelu, cyn ei chael gan y Parti sy'n ei datgelu; neu

30.7.3. sydd yn cael ei derbyn gan drydydd parti a'i chaffaelodd yn gyfreithlon ac nad yw dan unrhyw rwymedigaeth sy'n cyfyngu ar ei datgelu; neu

30.7.4. sydd wedi'i datblygu'n annibynnol heb fynediad at y Wybodaeth Gyfrinachol; neu

30.7.5. y mae'n rhaid ei datgelu yn unol â rhwymedigaeth statudol, gyfreithiol neu seneddol a roddwyd ar y Parti sy'n gwneud y datgeliad gan gynnwys unrhyw ofynion ar y Cleient i ddatgelu dan y Cod Ymarfer ar Fynediad Cyhoeddus i Wybodaeth a gyhoeddwyd gan y Cleient,

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ac yn unol ag Amod 33 (Rhyddid Gwybodaeth).

30.8. Ni fydd unrhyw beth yn Amod 30 yma yn atal y Contractiwr rhag:

30.8.1. datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol y mae'n ofynnol ei datgelu gan orchymyn llys neu dribiwnlys cymwys arall neu y mae'n ofynnol ei datgelu gan unrhyw ofyniad cyfreithiol perthnasol; neu

30.8.2. datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol felly fel sy'n gwbl angenrheidiol at ddiben cael cyngor cyfreithiol neu ar gyfer archwilio neu baratoi cyfrifon y Contractiwr i'w gynghorwyr cyfreithiol a'i gyfrifwyr, cyhyd â bod y cyfryw gynghorwyr cyfreithiol a chyfrifwyr yn rhwym dan ddyletswydd cyfrinachedd broffesiynol.

30.9. Ni fydd unrhyw beth yn Amod 30 yma yn atal yr un o'r ddau Barti rhag defnyddio unrhyw dechnegau, syniadau neu allu a gafaelwyd tra'n cyflawni'r Contract yn ystod ei fusnes arferol, i'r graddau nad yw hyn yn arwain at ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol neu'n torri Hawliau Eiddo Deallusol.

30.10. Os yw'r Contractiwr yn methu cydymffurfio ag Amod 30, mae'r Cleient yn cadw'r hawl i derfynu'r Contract trwy roi rhybudd yn ysgrifenedig i'r Contractiwr a bydd yn weithredol ar unwaith.

30.11. Bydd darpariaeth Amod 30 yn gymwys tra pery'r Contract hwn ac am gyfnod amhendant wedi iddo gael ei derfynu sut bynnag y bydd hynny'n digwydd.

31. CYHOEDDUSRWYDD, Y CYFRYNGAU AC YMCHWILIADAU SWYDDOGOL

31.1. Ac eithrio â chaniatâd ysgrifenedig y Cleient, ni fydd y Contractiwr yn gwneud unrhyw gyhoeddiadau i'r wasg nac yn cyhoeddi'r Contract nac unrhyw ran ohono mewn unrhyw ffordd.

31.2. Bydd y Contractiwr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod ei Staff yn cydymffurfio ag Amod 31.1.

31.3. Bydd darpariaethau Amod 31 yn gymwys tra pery'r Contract hwn ac am gyfnod amhendant wedi iddo ddod i ben neu gael ei derfynu.

32. DIOGELU DATA

32.1. Yn Amod 32 yma mae'r un ystyr i'r term Data Personol â hwnnw a roddir yn Neddf Diogelu Data 1998 ("Deddf 1998") a chaiff "wedi'i brosesu" a "phrosesu" eu dehongli yn unol â Deddf 1998.

32.2. Bydd y Contractiwr yn cydymffurfio â Deddf 1998 ac unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data gymwys arall. Yn benodol, mae'r Contractiwr yn cytuno i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau a roddwyd ar y Cleient gan y seithfed egwyddor diogelu data ("y Seithfed Egwyddor") a nodir yn Neddf 1998, sef:

32.2.1. cynnal mesurau diogelwch technegol a threfniadol sy'n ddigonol i gydymffurfio o leiaf â'r rhwymedigaethau a roddwyd ar y Cleient gan y Seithfed Egwyddor;

32.2.2. prosesu'n unig Data Personol ar gyfer ac ar ran y Cleient, yn unol â chyfarwyddiadau'r Cleient ac at ddiben cyflawni'i rwymedigaethau dan y Contract ac i sicrhau cydymffurfio â Deddf 1998;

32.2.3. i ganiatáu'r Cleient i archwilio cydymffurfiaeth y Contractiwr â gofynion Amod 32 o gael rhybudd rhesymol a/neu ddarparu tystiolaeth i'r Cleient o'i gydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau a nodir yn Amod 32 yma.

32.3. Mae'r Contractiwr yn cytuno i indemnio a pharhau i indemnio'r Cleient yn erbyn pob hawliad ac achos a phob atebolrwydd, colled, cost a thraul a wneir mewn cysylltiad â hynny gan y Cleient o ganlyniad i unrhyw hawliad a wneir neu a ddygir gan unrhyw unigolyn neu berson cyfreithiol arall mewn perthynas ag unrhyw golled, difrod neu gyfyngder a achosir i'r unigolyn hwnnw neu berson cyfreithiol arall o ganlyniad i'r Contractiwr yn prosesu'n anawdurdodedig, yn prosesu'n anghyfreithlon, yn dinistrio a/neu yn difrodi unrhyw Ddata Personol a brosesir gan y Contractiwr, ei gyflogeion neu asiantiaid wrth i'r Contractiwr gyflawni'r Contract neu fel y cytunir fel arall rhwng y Partïon.

32.4. Mae'r ddau Barti yn cytuno i wneud pob ymdrech resymol i gynorthwyo'i gilydd i gydymffurfio â Deddf 1998. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae hyn yn cynnwys y Contractiwr yn darparu cymorth rhesymol i'r Cleient i gydymffurfio â cheisiadau am fynediad i destun a gyflwynir i'r Cleient dan Adran 7 Deddf 1998 a'r Contractiwr yn ymgynghori â'r Cleient cyn i'r Contractiwr ddatgelu unrhyw Ddata Personol mewn perthynas â cheisiadau felly.

33. RHYDDID GWYBODAETH

33.1. Mae'r Contractiwr yn cydnabod bod y Cleient yn ddarostyngedig i ofynion y Cod Ymarfer ar Fynediad Cyhoeddus i Wybodaeth a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("Cod CCC"), y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ("DRhG") a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ("RhGA").

33.2. Mae'r Contractiwr yn cydnabod y bydd y Cleient yn gyfrifol am bennu yn ei ddisgresiwn llwyr pa un:

33.2.1. i ddatgelu unrhyw wybodaeth y mae wedi'i chael dan neu mewn cysylltiad â'r Contract i'r graddau ei bod yn ofynnol i'r Cleient ddatgelu gwybodaeth felly i berson sy'n gwneud cais am ddatgelu dan y DRhG neu'r RhGA ("RFI");

33.2.2. a yw unrhyw wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu dan God CCC, y DRhG neu'r RhGA.

33.3. Mae'r Contractiwr yn cydnabod y gall y Cleient, gan weithredu'n unol â Chod Ymarfer yr Adran Materion Cyfansoddiadol ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus a gyhoeddwyd dan Adran 45 DRhG ("Cod y DCA"), fod dan rwymedigaeth dan God CCC, y DRhG neu'r RhGA i ddatgelu gwybodaeth yn amodol ar RFI:

33.3.1. yn dilyn ymgynghoriad â'r Contractiwr a gynhaliwyd yn unol â Chod y DCA;

33.3.2. heb ymgynghori â'r Contractiwr lle nad yw hyn yn ofynnol gan God CCC neu God y DCA.

33.4. Lle'r ymgynghorir â'r Contractiwr yn unol â chymal 33.3.1 yna bydd y Contractiwr yn ymateb gydag unrhyw farnau cyn pen pump (5) diwrnod gwaith.

33.5. Ni fydd y Contractiwr yn ymateb yn uniongyrchol i RFI ar unrhyw gyfrif oni bai ei fod wedi'i awdurdodi'n benodol i wneud hynny gan y Cleient.

33.6. Bydd y Contractiwr yn darparu pob cymorth angenrheidiol yn ddiymdroi fel y bydd yn ofynnol yn rhesymol gan y Cleient i ymateb i RFI trwy ddarparu gwybodaeth a mynediad i ddogfennau a chofnodion y gofynna'r Cleient yn rhesymol amdanynt er mwyn ateb cais am ddatgelu o fewn yr amser cydymffurfio a nodir yn Adran 10 y DRhG.

33.7. Bydd darpariaethau Amod 33 yma yn gymwys tra pery'r Contract hwn ac am gyfnod amhenodol wedi i'r Contract ddod i ben neu wedi'i derfynu.

34. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998

34.1. Bydd y Contractiwr yn sicrhau, ac yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau, bod ei Staff bob amser yn gweithredu mewn modd sy'n gydnaws â hawliau'r Confensiwn o fewn ystyr Adran 1 Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r Contractiwr yn cytuno i indemnio a pharhau i indemnio'r Cleient yn erbyn pob colled, cost, achos neu ddifrod pa beth bynnag sy'n deillio o neu mewn cysylltiad ag unrhyw achos gan y Contractiwr o dorri'i rwymedigaethau dan Amod 34 yma.

35. HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL

35.1. Bydd yn amod o'r Contract hwn, ac eithrio i'r graddau y mae'r Nwyddau wedi'u paratoi yn unol â chynlluniau a roddwyd gan y Cleient, na fydd unrhyw un o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau yn torri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd parti a bydd y Contractiwr yn indemnio'r Cleient a'r Goron yn llawn yn erbyn pob gweithred, cais, hawliad, gorchymyn, colled, cost a thraul y gall y Cleient neu'r Goron eu dioddef neu eu cael o ganlyniad neu mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri Amod 35.

35.2. Bydd y Contractiwr yn cael cymeradwyaeth y Cleient cyn defnyddio unrhyw ddeunydd mewn perthynas â chyflawni'r Contract sydd neu a all fod yn ddarostyngedig i Hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd parti. Lle rhoddir cymeradwyaeth felly gan y Cleient, bydd y Contractiwr yn cael bod perchennog yr hawliau yn rhoi trwydded heb fod yn unigryw i'r Cleient neu, os yw ei hun yn drwyddedai'r hawliau hynny, bydd yn rhoi is-drwydded awdurdodedig i'r Cleient i ddefnyddio, atgynhyrchu, cyfaddasu, addasu a gwella'r deunydd yn amodol ar hawliau felly. Bydd y gyfryw drwydded yn barhaol ac yn ddi-alw yn ôl a chaiff ei rhoi heb unrhyw gost i'r Cleient.

35.3. Bydd pob Hawl Eiddo Deallusol mewn unrhyw fanylebau, cyfarwyddiadau, cynlluniau, lluniadau, patrymau, dyluniadau, modelau neu ddeunyddiau eraill:

35.3.1. a roddwyd neu a wnaed ar gael i'r Contractiwr gan y Cleient yn unol â'r Contract hwn yn aros yn eiddo i'r Cleient.

35.3.2. a baratowyd gan neu ar gyfer y Contractiwr i'w defnyddio, neu i fwriadu eu defnyddio, mewn perthynas â chyflawni'r Contract hwn trwy hyn yn cael eu haseinio a'u rhoi'n gyfan gwbl ym meddiant y Goron, ac heb wneud niwed i Amod 30 (Cyfrinachedd) ni fydd y Contractiwr a bydd yn sicrhau na fydd ei Staff (ac eithrio i'r graddau sy'n angenrheidiol i weithredu'r Contract hwn) heb ganiatâd y Cleient ymlaen llaw yn defnyddio nac yn datgelu unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol nac unrhyw wybodaeth arall (pa un ai'n berthnasol ai beidio i'r Contract hwn) y gall y Contractiwr ei derbyn yn unol â'r Contract hwn, ac eithrio gwybodaeth sy'n wybodaeth gyhoeddus ac eithrio oherwydd torri amodau'r ddarpariaeth hon, ac yn benodol (ond heb niwed i gyffredinolrwydd yr uchod) ni fydd y Contractiwr yn cyfeirio at y Cleient nac at y Contract mewn unrhyw hysbyseb heb ganiatâd y Cleient ymlaen llaw.

35.4. Bydd y Contractiwr yn hysbysu'r Cleient ar unwaith os oes unrhyw hawliad neu orchymyn yn cael eu gwneud neu os dygir achos yn

erbyn y Contractiwr am drosedd neu drosedd honedig yn erbyn unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract. Bydd y Contractiwr ar ei gost ei hun yn cynnal unrhyw ymgyfreithiad yn codi oddi yno a phob cyd-drafodaeth mewn cysylltiad â hynny cyhyd â bod y Contractiwr bob amser yn ymgynghori â'r Cleient ynghylch yr holl faterion sylweddol sy'n codi tra bod ymgyfreithiad a chyd-drafodion felly'n mynd rhagddynt a bydd, mewn ymddygiad felly, yn rhoi ystyriaeth ddyledus a phriodol i fuddiannau'r Cleient.

35.5. Bydd y Cleient ar gais y Contractiwr yn rhoi i'r Contractiwr pob cymorth rhesymol at ddiben herio unrhyw hawliad neu orchymyn a wneir neu unrhyw achos a ddygir yn erbyn y Cleient neu'r Contractiwr am drosedd neu drosedd honedig yn erbyn unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract ac ad-delir yr holl gostau a threuliau iddo (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gostau cyfreithiol a threuliau ar sail cyfreithiwr neu gleient) yn sgil gwneud hynny.

35.6. Ni fydd y Cleient yn gwneud unrhyw gyfaddefiadau a all fod yn niweidiol i amddiffyniad neu setliad unrhyw hawliad, gorchymyn neu achos am drosedd neu drosedd honedig yn erbyn unrhyw Hawl Eiddo Deallusol gan y Cleient neu'r Conractiwr mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract.

35.7. Os oes hawliad, gorchymyn neu achos am drosedd neu drosedd honedig yn erbyn unrhyw Hawl Eiddo Deallusol yn cael ei wneud mewn cysylltiad â'r Contract neu sy'n debygol o gael ei wneud ym marn resymol y Contractiwr, bydd y Contractiwr ar ei gost ei hun ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Cleient (nad yw i'w atal na'i oedi'n afresymol) naill ai:

35.7.1. yn cyfaddasu unrhyw un neu bob un o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau heb leihau ansawdd neu addasrwydd at ddiben yr un o'r rheiny, na'n amnewid Nwyddau a/neu Wasanaethau eraill o ansawdd ac addasrwydd at ddiben tebyg, er mwyn osgoi'r drosedd neu'r drosedd honedig, cyhyd ag y bydd y Contract hwn yn cymhwyso *mutatis mutandis* i Nwyddau a/neu

Wasanaethau cyfaddasedig felly neu i'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau a amnewidiwyd; neu

35.7.2. yn caffael trwydded i ddefnyddio'r Hawliau Eiddo Deallusol sy'n destun y drosedd neu'r drosedd honedig, ar delerau sy'n dderbyniol i'r Cleient.

35.8. Ni fydd y darpariaethau uchod yn Amod 35 yn gymwys i'r graddau bod unrhyw hawliad neu orchymyn neu achos felly yn ymwneud â:

35.8.1. unrhyw ddefnydd gan neu ar ran y Cleient o Nwyddau a/neu Wasanaethau ar y cyd ag unrhyw eitem na chafodd ei chyflenwi na'i hawdurdodi gan y Contractiwr (a fydd yn gweithredu'n rhesymol wrth roi awdurdod felly) lle mae defnydd felly o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau yn achosi'r hawliad, y gorchymyn neu'r achos yn uniongyrchol; neu

35.8.2. y defnydd gan y Cleient o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau mewn modd na chesglir yn rhesymol o'r Fanyleb; neu

35.8.3. gwrthodiad afresymol y Cleient i dderbyn Nwyddau a/neu Wasanaethau cyfaddasedig neu amnewid yn unol ag Amod 35.7.1 uchod.

35.9. Os yw'r Contractiwr wedi manteisio ar yr hawliau i gyfaddasu neu amnewid y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau neu i gaffael trwydded a bod arfer yr hawliau dywededig wedi osgoi unrhyw hawliad, gorchymyn neu achos am drosedd, yna ni fydd gan y Contractiwr unrhyw atebolrwydd pellach dan Amod 35 mewn perthynas â'r hawliad, gorchymyn neu achos dywededig.

35.10. Os nad yw cyfaddasiad neu amnewid yn unol ag Amod 35.7.1 uchod yn bosibl er mwyn osgoi'r drosedd, ac nad yw'r Contractiwr yn gallu caffael trwydded yn unol ag Amod 35.7.2, bydd Amod 35.1 yn gymwys.

35.11. Mae'r uchod yn datgan atebolrwydd llwyr y Contractiwr mewn perthynas â throsedd yn erbyn unrhyw Hawl Eiddo Deallusol mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract.

35.12. Pan derfynir y Contract bydd y Contractiwr ar unwaith yn dychwelyd i'r Cleient yr holl ddeunyddiau, gwaith neu gofnodion a gedwir, gan gynnwys unrhyw gyfryngau ategu.

35.13. Bydd darpariaethau Amod 35 yn gymwys tra pery'r Contract hwn ac am gyfnod amhenodol wedi i'r Contract ddod i ben neu wedi'i derfynu sut bynnag y bydd hynny'n digwydd.

36. INDEMNIAD AC YSWIRIANT

36.1. Bydd y Contractiwr yn **indemnio** ac yn parhau i indemnio'r Client, y Goron, a'i gyflogeion neu ei chyflogeion, gweision, asiantiaid neu is-gontractwyr yn erbyn pob gweithred, cais, hawliad, achos, iawndal, gorchymyn, cost (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gostau cyfreithiol), treuliau ac unrhyw atebolrwydd arall pa beth bynnag sy'n deillio o neu mewn cysylltiad â'r Contract a'r Contractiwr yn cyflawni'r Contract mewn perthynas ag unrhyw farwolaeth neu anaf personol, neu golled neu ddifrod i eiddo a achosir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan unrhyw weithred neu anwaith gan y Contractiwr a'r Staff.

36.2. Bydd y Contractiwr yn **indemnio** ac yn parhau i indemnio'r Cleient, y Goron, a'i gyflogeion neu ei chyflogeion, gweision, asiantiaid neu is-gontractwyr ymhellach yn erbyn unrhyw wariant yn ymwneud ag atgyweirio'r Adeiladau neu adnewyddu cyfarpar yn deillio o esgeuluster neu ddiffyg ar ran y Contractiwr neu'i Staff.

36.3. Ni fydd yr indemniad yn Amod 36.1 yn gymwys i weithredoedd, hawliadau, achosion, iawndal, gorchmynion, costau, treuliau ac unrhyw atebolrwydd arall sy'n deillio o farwolaeth neu anaf personol i bersonau na chyflogir gan y Contractiwr na cholled neu ddifrod i eiddo sy'n berchen i bersonau na chyflogir gan y Contractiwr i'r graddau bod y gyfryw farwolaeth neu anaf neu golled neu ddifrod i eiddo wedi'u hachosi gan weithredu neu anwaith bwriadol y Cleient, y Goron neu unrhyw un o'i gyflogeion neu ei chyflogeion, gweision, asiantiaid neu is-gontractwyr. At ddiben Amod 36.3, ystyrir bod person yn gyflogedig gan y Contractiwr os oeddent yn gyflogedig felly ar y dyddiad neu'r dyddiadau y dioddefwyd marwolaeth neu anaf neu golled neu ddifrod i'w heiddo.

36.4. Bydd y Contractiwr (i'r graddau bod polisïau yswiriant felly ar gael yn gyffredinol) yn achosi ac yn cynnal gydag yswiriwr o fri sy'n cynnal ei fusnes yn yr Undeb Ewropeaidd, polisi neu bolisïau yswiriant sy'n darparu'r lefel sicrwydd yswiriant a bennir yn Nogfennau'r Tender neu os nad oes un, lefel ddigonol o sicrwydd yswiriant mewn perthynas â'r holl risgiau a geir gan y Contractiwr yn deillio o'r Contractiwr yn cyflawni'r Contract, gan gynnwys (heb gyfyngiad) marwolaeth neu anaf personol neu golled neu ddifrod i eiddo. Bydd y cyfryw bolisïau yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

36.4.1. sicrwydd yswiriant mewn perthynas ag unrhyw golled ariannol yn deillio o unrhyw gyngor a roddir neu yr hepgorir ei rhoi gan y Contractiwr; ac

36.4.2. yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant atebolrwydd cynnyrch sydd i gynnwys unrhyw atebolrwydd (pa un a yw'n codi mewn contract, camwedd neu fel arall) y gall fod ganddo i'r Cleient dan y Contract gan gynnwys sicrwydd yswiriant am golled neu ddifrod i Adeiladau'r Cleient neu unrhyw un o eiddo'r Cleient o dro i dro yng ngwarchodaeth neu reolaeth y Contractiwr,

swm nid llai na £500,000 am unrhyw un digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau cysylltiedig yn deillio o'r un digwyddiad ac yn ddigyfyngiad o ran cyfanswm, oni chytunir yn wahanol gan y Cleient yn ysgrifenedig. Mae'r cyfryw yswiriant i'w godi gan y Contractiwr yn enwau'r Contractiwr a'r Cleient ar y cyd er mai'r Contractiwr sy'n llwyr gyfrifol am dalu'r premiwm yswiriant gan gynnwys trethi cysylltiedig ac unrhyw daliadau brocer.

36.5. Er mwyn osgoi amheuaeth, os gwrthodir yswiriant neu os caiff ei gynnig yn unig yn amodol ar amodau beichus neu anarferol yn sgil cofnod hawliadau'r Contractiwr neu unrhyw reswm arall sy'n neilltuol i'r Contractiwr, ni chymerir hyn i olygu nad yw yswiriant o'r math hwnnw ar gael yn gyffredinol.

36.6. Bydd gan y Contractiwr yswiriant atebolrwydd cyflogwr mewn perthynas â Staff yn unol ag unrhyw ofynion cyfreithiol sydd mewn grym ar y pryd.

36.7. Bydd y Contractiwr yn dangos i'r Cleient ar gais tystiolaeth bod yr holl bolisïau yswiriant y cyfeirir atynt yn Amod 36 yma yn cael eu cynnal ar ffurf llythyr brocer neu ffurf debyg, ynghyd â derbynebau a thystiolaeth arall o daliad y premiwm olaf a oedd yn ddyledus dan hynny.

36.8. Ni fydd telerau unrhyw yswiriant na maint y sicrwydd yswiriant yn rhyddhau'r Contractiwr o unrhyw atebolrwydd dan y Contract. Bydd yn gyfrifoldeb y Contractiwr i bennu maint y sicrwydd yswiriant a fydd yn ddigonol i alluogi'r Contractiwr i fodloni unrhyw atebolrwydd y cyfeirir ato dan Amodau 36.1 a 36.2.

36.9. Lle bydd yn gymwys i Amod 36 bydd y Contractiwr yn hysbysu'r Cleient ar unwaith os daw'n ymwybodol o unrhyw ffaith neu fater a allai wneud y Cleient yn agored i'w erlyn.

37. CONTRACTIWR ARALL

37.1. Mae'r Cleient yn cadw'r hawl heb achosi atebolrwydd i'r Contractiwr i ddefnyddio contractiwr arall ar unrhyw adeg tra bod y Contract hwn mewn grym oherwydd anallu'r Contractiwr i ddarparu unrhyw rai o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau i fodlonrwydd y Cleient am unrhyw reswm y tu hwnt i reolaeth y Cleient.

37.2. Yn unol ag Amod 6.8 os yw'r Cleient yn mynd i gostau uwchlaw Pris y Contract o ganlyniad i ddefnyddio contractiwr arall, gall y Cleient ar ei ddisgresiwn ddewis bod y taliadau hynny'n cael eu talu gan y Contractiwr.

38. TERFYNU

38.1. Gall y Cleient derfynu'r Contract drwy hysbysiad yn ysgrifenedig ar unwaith os digwydd y canlynol:

38.1.1. lle mae'r Contractiwr yn dioddef newid rheolaeth, o fewn yr ystyr yn Adran 416 Deddf Incwm a Threthi Corfforaeth 1988, sy'n effeithio er gwaeth ac yn sylweddol ar gyflawni'r Contract; neu

38.1.2. lle mae'r Contractiwr yn unigolyn neu'n fusnes a bod deiseb yn cael ei chyflwyno ar gyfer methdaliad y Contractiwr, neu fod gorchymyn methdaliad troseddol

yn cael ei wneud yn erbyn y Contractiwr neu unrhyw bartner yn y busnes, neu ei fod yn gwneud cyfansoddiad neu drefniant gyda neu er lles credydwyr, neu yn gwneud unrhyw drawsgludiad neu neilltuad er lles credydwyr, neu os penodir gweinyddwr i reoli busnes y Contractiwr neu'r busnes; neu

38.1.3. lle mae'r Contractiwr yn unigolyn, os yw'n marw neu'n cael ei ddyfarnu'n analluog i reoli ei fusnes o fewn ystyr Rhan VII Deddf Iechyd Meddwl 1983;

38.1.4. lle mae'r Contractiwr yn gwmni, os yw'r cwmni yn pasio penderfyniad i ddirwyn y cwmni i ben neu ei ddiddymu (ac eithrio at ddibenion ac wedi'i ddilyn gan uno neu ailadeiladu dilys), neu os gwneir cais am, neu fod unrhyw gyfarfod o'i gyfarwyddwyr neu aelodau yn penderfynu gwneud cais am orchymyn gweinyddu mewn perthynas ag ef neu fod unrhyw barti yn rhoi neu'n ffeilio hysbysiad o fwriad i benodi gweinyddwr ohono neu fod gweinyddwr felly'n cael ei benodi, neu os bydd y llys yn gwneud gorchymyn dirwyn i ben, neu os bydd y cwmni yn gwneud cyfansoddiad neu drefniant gyda'i gredydwyr, neu os penodir derbynnydd gweinyddu, derbynnydd, rheolwr, neu oruchwyliwr gan gredydwr neu gan y llys, neu os meddiennir unrhyw ran o'i eiddo o dan delerau taliad sefydlog neu daliad arnawf, neu

38.1.5. lle nad yw'r Contractiwr yn gallu talu ei ddyledion o fewn ystyr Adran 123 Deddf Methdaliad 1986; neu

38.1.6. lle mae unrhyw ddigwyddiad tebyg yn digwydd dan gyfraith unrhyw awdurdodaeth arall y mae'r Contractiwr yn ddarostyngedig iddi.

38.2. Mewn perthynas â therfyniad ar gyfer newid mewn rheolaeth, gall y Cleient arfer ei hawl yn unig dan Amod 38.1 cyn pen chwe (6) mis wedi i newid mewn rheolaeth ddigwydd ac ni fydd hawl ganddo wneud hynny lle mae wedi cytuno ymlaen llawn i'r newid penodol mewn rheolaeth sy'n digwydd.

38.3. Bydd y Contractiwr yn hysbysu'r Cleient yn ysgrifenedig ar unwaith pan fydd unrhyw un o'r digwyddiadau yn Amod 38.1 uchod yn digwydd.

38.4. Gall y Cleient derfynu'r Contract, neu derfynu darpariaeth unrhyw ran o'r Contract, drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Contractiwr a fydd yn cael effaith ar unwaith os yw'r Contractiwr yn cyflawni Diffyg ac:

38.4.1. os nad yw'r Contractiwr wedi cywiro'r Diffyg i fodlonrwydd y Cleient cyn pen deng niwrnod ar hugain (30), neu gyfnod arall y gall y Cleient ei bennu, ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig yn nodi'r Diffyg ac yn gofyn iddo gael ei gywiro; neu

38.4.2. nid yw'r Diffyg yn gallu cael ei unioni; neu

38.4.3. mae'r Diffyg yn achos sylfaenol o dorri'r Contract.

38.5. Os, drwy unrhyw Ddiffyg y Contractiwr, y caiff data a drosglwyddwyd neu a broseswyd mewn cysylltiad â'r Contract ei golli neu'i ddiraddio'n ddigonol fel na ellir ei ddefnyddio, bydd y Contractiwr yn atebol am gost ailgyfansoddi'r data hwnnw a bydd yn darparu credyd llawn mewn perthynas ag unrhyw gost a godir am ei drosglwyddo.

39. EFFAITH TERFYNU OHERWYDD DIFFYG

39.1. Lle terfynir y Contract yn unol ag Amod 38, neu oherwydd Diffyg neu dorri unrhyw rwymedigaeth arall dan y Contract, ar hynny, heb niwed i unrhyw un arall o'i hawliau, gall y Cleient ei hun gaffael y Nwyddau a/neu gwblhau'r Gwasanaethau neu beri bod trydydd parti yn eu cwblhau, gan ddefnyddio at y diben hwnnw (gan ganiatáu mewn modd teg a phriodol ar gyfer hynny mewn unrhyw daliad a wneir wedi hynny i'r Contractiwr) yr holl ddefnyddiau, peiriannau a chyfarpar yn yr Adeiladau sy'n eiddo i'r Contractiwr, ac ni fydd y Cleient yn atebol i wneud unrhyw daliad arall i'r Contractiwr hyd nes y bydd y Nwyddau wedi'u dosbarthu a/neu'r Gwasanaethau wedi cael eu cwblhau yn unol â gofynion y Contract, a bydd ganddo'r hawl i ddidynnu o unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Contractiwr unrhyw gostau ychwanegol mewn perthynas â hynny a gafwyd gan y Cleient (gan gynnwys costau'r

Cleient ei hun). Os bydd cyfanswm y costau i'r Cleient yn fwy na'r swm (os oes) sy'n ddyledus i'r Contractiwr, gall y Cleient adennill y gwahaniaeth gan y Contractiwr.

40. **TORRI**

40.1. Yn ychwanegol at hawliau terfynu'r Cleient dan Amod 38, bydd hawl gan y Cleient i derfynu'r Contract hwn trwy roi rhybudd o ddim llai na deng niwrnod ar hugain (30) i'r Contractiwr i'r perwyl hwnnw.

40.2. Pan dderbynia rybudd dan Amod 40.1, bydd hawl gan y Contractiwr gael ad-daliad teg a rhesymol am y rhan honno o'r Nwyddau y mae wedi'i dosbarthu a/neu'r Gwasanaethau y mae wedi'i chwblhau neu'u chychwyn ac nad yw wedi derbyn tâl mewn perthynas â hi, ac am unrhyw gostau neu ddyledion a achoswyd i drydydd parti o ganlyniad i unrhyw ymrwymiad di-alw yn ôl a wneir wrth gyflawni'r Contract, i'r graddau bod y Contractiwr yn gallu darparu tystiolaeth i fodlonrwydd rhesymol y Cleient i ategu unrhyw symiau y mae'n eu hawlio.

40.3. Pan dderbynia rybudd dan Amod 40.1, bydd y Contractiwr yn peidio â dosbarthu'r Nwyddau a/neu gyflawni'r Gwasanaethau'n ddi-oed a bydd yn cymryd pob cam rhesymol ar unwaith i liniaru ei gostau a'i golledion a thynnu'n ôl o unrhyw ymrwymiadau i drydydd parti mewn perthynas â chyflawni'i rwymedigaethau dan y Contract.

40.4. Ni fydd y Cleient yn atebol pan derfynir y Contract dan Amod 40.1 i dalu unrhyw swm sydd, pan gaiff ei ychwanegu at y symiau a dalwyd neu sy'n ddyladwy i'r Contractiwr dan y Contract, yn fwy na chyfanswm y swm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r Contractiwr pe na bai'r Contract wedi'i derfynu cyn i Gyfnod gwreiddiol y Contract ddod i ben.

41. EFFAITH TERFYNU YN GYFFREDINOL

41.1. Ni fydd terfyniad o dan unrhyw ddarpariaeth y Contract yn niweidio nac yn effeithio ar unrhyw hawl gweithredu neu rwymedi a fydd wedi cronni neu a fydd ar hynny yn cronni i'r Cleient ac ni fydd yn effeithio ar weithredu parhaus unrhyw rwymedigaeth a

ddatganwyd y byddai'n parhau y tu hwnt i derfyniad y Contract neu wedi iddo ddod i ben.

42. **AMHARIAD**

42.1. Bydd y Contractiwr yn cymryd pob gofal rhesymol i sicrhau wrth iddo gyflawni'r Contract nad yw'n amharu ar weithrediadau'r Cleient, ei weision, asiantiaid, cyflogeion, neu unrhyw gontractiwr arall a gyflogir gan y Cleient.

42.2. Bydd y Contractiwr yn hysbysu'r Cleient yn ddi-oed am unrhyw weithredu diwydiannol gwirioneddol neu botensial, pa un a yw unrhyw weithredu felly gan ei Staff ei hun neu gan Gontractwyr y Contractiwr, sy'n debygol o effeithio ar allu'r Contractiwr ar unrhyw adeg i gyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract.

42.3. Os oes unrhyw weithredu diwydiannol gan y Staff neu gontractwyr y Contractiwr, bydd y Contractiwr yn gofyn am gymeradwyaeth y Cleient i'w gynigion i gyflawni'i rwymedigaethau o dan y Contract. Os ystyrir bod cynigion y Contractiwr yn annigonol neu'n annerbyniol gan y Cleient, yna gall y Cleient derfynu'r Contract trwy roi rhybudd yn ysgrifenedig gydag effaith ddi-oed.

42.4. Os nad yw'r Contractiwr, dros dro, yn gallu cyflawni unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Contract oherwydd amhariad ar ei fusnes arferol trwy gyfarwyddyd y Cleient, bydd lwfans priodol ar ffurf estyniad amser ar gyfer cyflawni'r rhwymedigaeth yr effeithiwyd arni yn cael ei gymeradwyo gan y Cleient.

43. NEILLTUO AC IS-GONTRACTIO

43.1. Ni fydd y Contractiwr yn neilltuo, yn morgeisio, yn arwystlo nac yn trosglwyddo fel arall unrhyw hawliau neu rwymedigaethau dan y Contract hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw.

43.2. Ni fydd y Contractiwr yn is-gontractio unrhyw ran o'r Contract heb ganiatâd ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw. Ni fydd is-gontractio unrhyw ran o'r Contract yn rhyddhau'r Contractiwr o unrhyw ymrwymiad na dyletswydd sydd i'w briodoli iddo ef o dan y Contract.

43.3. Bydd y Contractiwr yn rhoi rhestr i'r Cleient o'r holl bersonél sy'n cael eu cyflogi gan ei isgontractwyr ac unrhyw newidiadau dilynol iddynt, a bydd yn sicrhau bod unrhyw is-gontractiwr yn cadw at ac yn cydymffurfio â holl ofynion eraill Amod 25 (Staff y Contractiwr).

43.4. Lle mae'r Cleient wedi cydsynio i osod is-gontractau, bydd copïau o bob is-gontract yn cael eu hanfon gan y Contractiwr at y Cleient cyn gynted ag y caiff ei roi.

43.5. Gall y Cleient wrth roi rhybudd i'r Contractiwr drosglwyddo, newyddu neu waredu fel arall ei hawliau, ei rwymedigaethau a'i atebolrwydd o dan y Contract hwn neu unrhyw ran ohono i unrhyw awdurdod contractio yn y DU fel y diffinnir yn Erthygl 1 o Gyfarwyddeb 2004/18/EC ar yr amod nad yw unrhyw drosglwyddiad, newyddiad neu warediad arall yn cynyddu baich rhwymedigaethau'r Contractiwr dan y Contract hwn.

44. FORCE MAJEURE

44.1. At ddiben Amod 44, mae "Force Majeure" yn golygu unrhyw achlysur neu ddigwyddiad sydd y tu hwnt i reolaeth resymol y Parti dan sylw, ac na ellir ei briodoli i unrhyw weithred neu fethiant i gymryd camau ataliol gan y Parti dan sylw, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) reoliadau llywodraethol, tân, llifogydd, neu unrhyw drychineb. Nid yw'n cynnwys unrhyw weithredu diwydiannol sy'n digwydd o fewn sefydliad y Contractiwr nac o fewn sefydliad unrhyw is-gontractiwr.

44.2. Ni fydd yr un o'r ddau Barti yn atebol i'r llall am unrhyw oedi neu fethiant o ran cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract (ac

eithrio talu arian) os yw oedi neu fethiant felly'n deillio o ddigwyddiad Force Majeure. Bydd pob Parti yn gwneud pob ymdrech resymol i barhau i gyflawni'i rwymedigaethau trwy hyn tra pery'r digwyddiad Force Majeure. Fodd bynnag, os yw digwyddiad felly yn atal y naill Barti rhag cyflawni pob un o'i rwymedigaethau o dan y Contract am gyfnod hwy na chwe (6) mis, gall y naill Barti neu'r llall derfynu'r Contract trwy roi rhybudd yn ysgrifenedig gydag effaith ddi-oed.

44.3. Bydd unrhyw fethiant neu oedi gan y Contractiwr o ran cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract sy'n deillio o unrhyw fethiant neu oedi gan asiant, is-gontractiwr neu Gontractiwr yn cael ei ystyried yn ganlyniad Force Majeure yn unig os yw, ac i'r graddau bod, yr asiant, yr is-gontractiwr neu'r Contractiwr hwnnw ei hun wedi'i rwystro gan Force Majeure rhag cydymffurfio â rhwymedigaeth i'r Contractiwr.

44.4. Os daw yr un o'r ddau Barti yn ymwybodol o amgylchiadau Force Majeure sy'n arwain neu'n debygol o arwain at unrhyw fethiant neu oedi ar ei ran bydd yn hysbysu'r llall yn ddi-oed drwy'r dull cyflymaf sydd ar gael bryd hynny a bydd yn hysbysu'r llall am y cyfnod yr amcangyfrifir y bydd y cyfryw fethiant neu oedi'n para.

44.5. Er mwyn osgoi amheuaeth, datgenir yn unig swydd drwy hyn mai'r unig ddigwyddiadau a fydd yn caniatau rhyddhau o atebolrwydd am fethiant neu oedi o ran cyflawni'r Contract fydd unrhyw ddigwyddiad sy'n cymhwyso fel Force Majeure.

45. CWMPAS Y CONTRACT

45.1. Ar bob adeg mewn cysylltiad â'r Contract, bydd y Contractiwr yn gontractiwr annibynnol ac ni fydd unrhyw beth yn y Contract yn creu perthynas o asiantaeth neu bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng y Contractiwr a'r Cleient, ac yn unol â hynny ni fydd awdurdod gan y Contractiwr i rwymo'r Cleient.

45.2. Ni fydd y Contractiwr (a bydd yn sicrhau nad yw ei Staff) yn dweud neu'n gwneud unrhyw beth a allai arwain unrhyw berson arall i gredu bod y Contractiwr yn gweithredu fel asiant y Cleient.

45.3. Ni fydd unrhyw beth yn y Contract hwn yn rhoi unrhyw atebolrwydd ar y Cleient mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd

a achosir gan y Contractiwr i unrhyw berson arall, ond ni chymerir bod hyn yn eithrio neu'n cyfyngu ar unrhyw atebolrwydd y Cleient i'r Contractiwr a all godi yn rhinwedd naill ai torri'r Contract hwn neu unrhyw esgeulustod ar ran y Cleient, ei gyflogeion, ei weision, ei asiantiaid neu ei isgontractwyr.

46. HYSBYSIADAU

46.1. Ac eithrio hynny a ddarperir yn unig swydd fel arall o fewn y Contract, ni fydd gan hysbysiad neu gyfathrebiad arall o un Parti i'r llall unrhyw ddilysrwydd o dan y Contract oni bai iddo gael ei wneud yn ysgrifenedig gan neu ar ran y Parti dan sylw.

46.2. Bydd unrhyw hysbysiad neu gyfathrebiad arall sydd i'w roi gan y naill Barti i'r llall yn cael ei roi trwy lythyr (wedi ei anfon â llaw, drwy'r post, post cofrestredig neu'r gwasanaeth dosbarthiad wedi'i gofnodi), trwy drosglwyddiad ffacs neu bost electronig (wedi'i gadarnhau yn y naill achos trwy lythyr). Bydd y cyfryw lythyron yn cael eu cyfeirio at y Parti arall yn y cyfeiriad a nodir yn Nogfennau'r Tendr neu i gyfeiriad arall y gall y naill Barti eu henwi i'r llall o dro i dro.

46.3. Cyhyd â bod y cyfathrebiad perthnasol heb ei ddychwelyd heb ei ddosbarthu, tybir bod yr hysbysiad neu'r cyfathrebiad wedi cael ei roi dau (2) ddiwrnod gwaith ar ôl diwrnod postio'r llythyr, neu bedair (4) awr, yn achos post electronig neu drosglwyddiad ffacsimili neu'n gynharach lle mae'r Parti'n cydnabod ei fod wedi derbyn y cyfryw lythyr, trosglwyddiad ffacsimili neu bost electronig.

47. GWARANT

47.1. Mae'r Contractiwr yn gwarantu i'r Cleient bod ganddo pob statws corfforaethol ac awdurdod angenrheidiol i ymrwymo i a chael ei rwymo gan delerau'r Contract.

47.2. Mae'r Contractiwr yn gwarantu i'r Cleient nad oes ganddo unrhyw ddiffyg o ran talu unrhyw drethi dyladwy a thaladwy, neu o ran ffeilio, cofrestru neu gofnodi unrhyw ddogfen nac o dan unrhyw rwymedigaeth neu ofyniad cyfreithiol neu statudol y gallai diffyg gael effaith anffafriol materol berthnasol ar ei fusnes, ei asedau

neu ei gyflwr ariannol neu ei allu i gadw at neu gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract.

48. NEWID

48.1. Gall y Contract hwn gael ei newid yn ysgrifenedig yn unig wedi'i lofnodi gan gynrychiolwyr y Partïon sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol.

49. ILDIAD HAWL

49.1. Ni fydd methiant neu oedi ar ran yr un o'r ddau Barti i arfer unrhyw hawl neu rwymedi o dan y Contract hwn yn cael ei ddehongli neu'n gweithredu fel ildio'r hawliau hynny, ac ni fydd unrhyw achos unigol neu rannol o arfer unrhyw hawl neu rwymedi yn atal arfer y cyfryw hawl neu rwymedi ymhellach.

50. TORADWYEDD

50.1. Os caiff bod unrhyw ddarpariaeth neu ran o'r Contract hwn yn annilys, gellir gwneud newidiadau i'r Contract hwn drwy ychwanegu neu ddileu geiriad fel y bydd yn briodol er mwyn gwaredu'r rhan neu'r ddarpariaeth annilys, ond fel arall cadw darpariaeth a darpariaethau eraill y Contract hwn i'r graddau mwyaf posibl a ganiateir o dan y gyfraith gymwys.

51. **DEDDF CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD BARTÏON) 1999 ("Deddf 1999")**

51.1. Ni fydd gan unrhyw berson nad yw'n Barti i'r Contract hwn (gan gynnwys heb gyfyngiad unrhyw gyflogai, swyddog, asiant, rhanddeiliad, cynrychiolydd neu is-gontractiwr naill ai'r Cleient neu'r Contractiwr) unrhyw hawl i orfodi unrhyw un o delerau'r Contract sydd yn unig swydd neu drwy ymhlygiad yn rhoi mantais i'r cyfryw berson, heb gytundeb ysgrifenedig y ddau Barti ymlaen llaw, a dylai'r cytundeb hwnnw gyfeirio'n benodol at Amod 51 yma. Nid yw Amod 51 yn effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedi unrhyw berson sy'n bodoli neu sydd ar gael fel arall yn unol â Deddf 1999 ac nid yw'n gymwys i'r Goron.

52. **DATRYS ANGHYDFOD**

52.1. Yn ystod unrhyw anghydfod, gan gynnwys anghydfod ynghylch dilysrwydd y Contract, cytunir ar y cyd y bydd y Partïon yn parhau i gyflawni'r Contract yn briodol (oni bai bod y Cleient yn gofyn yn ysgrifenedig i'r Contractiwr beidio â gwneud hynny).

52.2. Bydd y Partïon yn gwneud ymdrech ddiffuant i gyd-drafod setliad i unrhyw anghydfod rhyngddynt (ac eithrio mater lle mynegir bod barn y Cleient yn un terfynol mewn perthynas ag ef) sy'n deillio o'r Contract neu mewn cysylltiad â'r Contract cyn pen deng niwrnod ar hugain (30) o'r naill Barti yn hysbysu'r llall am yr anghydfod. Bydd ymdrechion felly'n cynnwys ymestyn yr anghydfod i Bennaeth Caffael y Cleient a Chyfarwyddwr Cyllid y Contractiwr neu atebol.

52.3. Ni fydd unrhyw beth yn y Contract hwn yn atal yr un o'r ddau Barti rhag ceisio cael gorchymyn interim neu waharddeb gan unrhyw lys ag awdurdodaeth gymwys yn atal y Parti arall rhag gwneud unrhyw weithred neu orfodi'r Parti arall i wneud unrhyw weithred.

52.4. Os na ellir datrys yr anghydfod trwy gyd-drafod, caiff yr anghydfod ei gyfeirio i gyflafareddiad yn unol â'r weithdrefn a nodir isod oni bai naill ai:

52.4.1. bod y Cleient o'r farn nad yw'r anghydfod yn addas i'w gyfeirio i gyflafareddiad; neu

52.4.2. nad yw'r Contractiwr yn cytuno i gyflafareddiad.

Er mwyn osgoi amheuaeth, ni chymerir unrhyw beth yn y Contract hwn i olygu eithrio neu gyfyngu ar hawliau unrhyw Barti i wneud ceisiadau (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i geisiadau yn ymwneud â chostau) fel y gwêl yn dda mewn unrhyw achos, yn ymwneud ag ymddygiad y Parti arall ac yn benodol unrhyw benderfyniad a wneir dan Amod 52.4.1 neu 52.4.2 uchod.

52.5. Mae'r weithdrefn ar gyfer cyflafareddiad a darpariaethau ôl-ddilynol yn ymwneud â chyflafareddiad fel a ganlyn:

52.5.1. caiff cyflafareddwr diduedd ("y Cyflafareddwr") ei ddewis trwy gytundeb rhwng y Partïon neu, os na allant gytuno ar Gyflafareddwr cyn pen pedwar diwrnod ar ddeg (14) yn dilyn cais gan un Parti i'r llall neu os nad yw'r

Cyflafareddwr y cytunwyd arno yn gallu neu'n barod i weithredu, gall y naill Barti wneud cais i ADR Group, Grove House, Grove Road, Redland, Bristol BS6 6UN i benodi Cyflafareddwr, a chaiff y cyflafareddiad ei gynnal yn unol â rheolau a gweithdrefnau ADR Group. Os nad yw ADR Group yn gallu neu'n barod i enwebu Cyflafareddwr yna gall yr un o'r ddau Barti (yn amodol ar gael caniatâd y llall) fynd at gorff cyflafareddu cyfrifol arall.

52.5.2. Bydd y Partïon cyn pen pedwar diwrnod ar ddeg (14) o benodi'r Cyflafareddwr yn cyfarfod ag ef er mwyn trafod a chytuno rhaglen ar gyfer cyfnewid yr holl wybodaeth berthnasol a'r weithdrefn sydd i'w mabwysiadau ar gyfer y cyflafareddiad. Gall y naill Barti ofyn i'r Cyflafareddwr roi arweiniad ar raglen addas ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a/neu weithdrefn gyflafareddu.

52.5.3. Oni chytunir fel arall, bydd yr holl gyd-drafodion sy'n gysylltiedig â'r anghydfod ac unrhyw gytundeb setliad yn ymwneud ag ef yn gyfrinachol ac ni fyddant yn niweidio hawliau'r Partïon mewn unrhyw achosion yn y dyfodol.

52.5.4. Os yw'r Partïon yn dod i gytundeb ynghylch datrys yr anghydfod neu unrhyw ran ohono, caiff eu cytundeb ei ddarostwng i ysgrifen a bydd yn rhwymol ar y Partïon pan gaiff ei lofnodi gan y naill a'r llall neu eu cynrychiolwyr awdurdodedig priodol.

52.5.5. Os yw'r cyflafareddiad yn methu cyflawni datrysiad i'r anghydfod neu unrhyw ran ohono, gall y naill Barti neu'r llall ofyn i'r Cyflafareddwr roi barn wybodus, ond nad yw'n rhwymol, yn ysgrifenedig. Caiff barn felly ei rhoi ar sail heb ragfarn, ac ni chaiff ei defnyddio mewn tystiolaeth mewn unrhyw achos yn ymwneud â'r Contract heb ganiatâd ysgrifenedig y ddau Barti ymlaen llaw.

52.5.6. Os yw'r Partïon yn methu datrys yr anghydfod neu unrhyw ran ohono cyn pen chwe deg (60) diwrnod o benodi'r Cyflafareddwr, neu o fewn cyfnod hwy y gellir ei gytuno

rhwng y Partïon, yna gall unrhyw anghydfod neu wahaniaeth sy'n aros rhyngddynt gael eu cyfeirio at y Llysoedd.

52.5.7. Yn amodol ar Amodau 52.3 a 52.4, ni all yr un o'r ddau Barti gychwyn unrhyw achos yn y Llysoedd hyd nes bod y weithdrefn gyflafareddu a nodir yn Amod 52.5 yma wedi'i chwblhau.

53. CYFRAITH AC AWDURDODAETH

53.1. Tybir bod y Contract hwn yn gontract a wnaed yng Nghymru a chaiff ei reoli gan a'i ddehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr, fel y mae'n gymwys yng Nghymru. Bydd pob anghydfod sy'n codi o dan neu mewn cysylltiad â'r Contract (yn amodol ar Amod 52 uchod) yn ymostwng yn y lle cyntaf i awdurdodaeth anunigryw'r Llysoedd yng Nghaerdydd.